

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ynni Adnewyddadwy

Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu
Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir
Penfro

Dyddiad yr Ymgynghoriad: Medi 2020

Dyddiad Mabwysiadu: 5ed o Fai 2021

This item is also available in English/ Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

CYNNWYS

Geirfa	5
CYFLWYNIAD	7
Rôl Ynni Adnewyddadwy	7
Parciau Cenedlaethol a nodweddion arbennig.....	8
Cyd-destun y Polisi Cynllunio Cenedlaethol	9
Polisi cenedlaethol	9
GOSODIADAU SOLAR AR RADDFA FECHAN	12
Beth yw Gosodiadau Solar ar Raddfa Fechan?.....	12
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	13
Ffigwr 2.1: Arbelydriad solar y DU.....	14
Dewis safle addas o fewn y Parc Cenedlaethol.....	14
Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gosodiadau solar ar raddfa fechan yn y Parc Cenedlaethol.....	14
FFOTOFOLTAEG (PV) SOLAR AR RADDFA CAEAU	16
Beth Yw Ffotofoltaeg (PV) Solar ar Raddfa Caeau?.....	16
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	18
Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	18
Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gosodiadau solar ar raddfa caeau yn y Parc Cenedlaethol	19
TREULIO ANAEROBIG	22
Beth yw treulio anaerobig?.....	22
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	23
Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	23
Prif sensitifwydd tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gorsafoedd treulio anaerobig yn y Parc Cenedlaethol	23
GORSAFOEDD BIOMAS	25
Beth yw gorsafoedd biomas?	25
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	26

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	26
Prif sensitifeddau tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gorsafoedd biomas yn y Parc Cenedlaethol.....	26
2 MICRO-HYDRO	28
Beth yw Micro-hydro?	28
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	28
Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	29
Sensitifrwydd tirwedd allweddol a chanllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cynlluniau micro hydro yn y Parc Cenedlaethol	29
3 PYMPIAU GWRES O'R DDAEAR A FFYNONELLAU AER	30
Beth yw pypiau gwres o'r ddaear a ffynonellau aer?.....	30
Pypiau gwres o'r ddaear	30
Pypiau gwres ffynhonnell aer.....	30
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	31
Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	31
Prif sensitifeddau tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli pypiau gwres o'r ddaear a ffynhonnell aer yn y Parc Cenedlaethol.....	31
SYSTEM GWRESOGI ARDAL	32
Beth yw system gwresogi ardal?.....	32
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	32
Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	33
Prif sensitifeddau tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cynlluniau gwresogi ardal yn y Parc Cenedlaethol.....	33
4 YNNI GWYNT	34
Beth yw ynni gwynt?.....	34
Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	36
Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	36
Prif sensitifeddau tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cynlluniau ynni gwynt yn y Parc Cenedlaethol	36
CYSYLLTWYR GRID AR Y TIR AR GYFER GOSODIADAU GWYNT YN Y MÔR	39
Beth yw cysylltwr grid ar y tir?	39

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol	40
Canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cysylltwyr grid ar y tir yn y Parc Cenedlaethol.....	40
ATODIAD I: SENSITIFRWYDD Y DIRWEDD A CHANLLAWIAU AR GYFER DATBLYGIAD FFF SOLAR AR RADDFA CAEAU YN ÔL ACT	41
ACT1: Arfordir Setledig Saundersfoot.....	43
ACT3: Ynys Bŷr.....	45
ACT 4: Maenorbŷr/Freshwater East.....	46
ACT 5: Ystagbwl.....	48
ACT 6: Meysydd Tanio Castellmartin / Merrion	49
ACT 7: Penrhyn Angle.....	51
ACT 8: Freshwater West/ Brownslade Burrows	53
ACT 9: Marloes	54
ACT 10: Sgomer a Sgogwm.....	56
ACT 11: Herbrandston.....	57
ACT 12: Bae Sain Ffraid.....	59
ACT 13: Brandy Brook.....	61
ACT 14: Cwm Solfach	63
ACT 15: Comin Dowrog a Thretio.....	65
ACT 16: Carn Llidi.....	67
ACT 18: Penrhyn Tyddewi.....	68
ACT 19: Ynys Dewi	70
ACT 20: Trefin	71
ACT 21: Pen Caer/Penrhyn Strwmbwl	73
ACT 22: Mynydd Carningli.....	74
ACT 24: Pen Dinas	75
ACT 25: Penrhyn Cemaes.....	77
ACT 26: Cwm Gwaun / Afon Nyfer.....	79
ACT 27: Mynydd Preseli	80

ACT 28: Daugleddau	81
ATODIAD 2: SENSITIFRWYDD Y DIRWEDD A CHANLLAWIAU AR GYFER DATBLYGIADAU YNNI GWYNT FESUL ACT	83
ACT1: Arfordir Setledig Saundersfoot.....	84
ACT3: Ynys Bŷr.....	86
ACT4: Maenorbŷr / Freshwater East.....	87
ACT5: Ystagbwl	89
ACT6: Meysydd Tanio Castellmartin / Merrion	91
ACT 7: Penrhyn Angle.....	93
ACT8: Freshwater West / Brownslade Burrows	95
ACT 9: Marloes	96
ACT 10: Sgomer a Sgogwm.....	98
ACT 11: Herbrandston.....	99
ACT12: Bae Sain Ffraid	101
ACT13: Brandy Brook.....	103
ACT 14: Cwm Solfach	105
ACT 15: Comin Dowrog a Thretio.....	107
ACT16: Carn Llidi.....	109
ACT18: Penrhyn Tyddewi.....	110
ACT19: Ynys Dewi	112
ACT20: Trefin	113
ACT21: Pen-caer / Pen Strwmbwl.....	115
ACT22: Mynydd Carningli.....	117
ACT24: Pen Dinas	118
ACT25: Penrhyn Cemaes.....	120
ACT26: Cwm Gwaun / Afon Nyfer.....	122
ACT27: Mynydd Preseli	124
ACT28: Daugleddau	126

Geirfa

TA - Treuliad Anaerobig

AHNE - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

BREEAM - Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu

TAC - Treuliad Anaerobig Canolog

OGPhC - Oeri, gwres a phŵer cyfun

GPC – Gwres a phŵer cyfun

ASC – Ardoll Seilwaith Cymunedol

CLIL – Cymunedau a Llywodraeth Leol

CCC – Cod Cartrefi Cynaliadwy

AEA – Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

TCT – Tariff Cyflenwi Trydan

PGoDd – Pwmp Gwres o'r Ddaear

KWh – Cilowat awr

RhLIALI – Rheoli Llygredd Aer Lleol

ACT – Ardal Cymeriad Tirwedd

CDLI – Cynllun Datblygu Lleol

ACLI – Awdurdod Cynllunio Lleol

YDT – Ymgynghorwyr Defnydd Tir

MIPPS – Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog

MW - Megawat

MWh – Megawat awr

GNG - Gwarchodfa Natur Genedlaethol

APC – Awdurdod Parc Cenedlaethol

DPC - Datganiad Polisi Cenedlaethol

CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru

PCAP - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

APCAP - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

PLANED - Rhwydwaith Gweithredu Lleol dros Fenter a Datblygiad Sir Benfro

PCC - Polisi Cynllunio Cymru
FfF - Ffotofoltaeg
TRhA - Tystysgrif Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy
CGA – Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy
ACA - Ardal Cadwraeth Arbennig
CDC - Cronfa Datblygu Cynaliadwy
AAS - Asesiad Amgylcheddol Strategol
DPS - Dŵr Poeth Solar
AGA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig
CCA - Canllawiau Cynllunio Atodol
SDdGA - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
NCT - Nodyn Cyngor Technegol
LIC - Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

- 1.1 Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yw darparu canllawiau i gefnogi gyda rhoi Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Polisi 33, ar waith yn gadarnhaol.
- 1.2 Mabwysiadwyd fersiwn cynharach o'r canllawiau hyn dan Gynllun Datblygu Lleol 1.

Rôl Ynni Adnewyddadwy

- 1.3 Mae ynni adnewyddadwy yn cyfeirio at lifoedd ynni sy'n digwydd yn naturiol a pharhaus yn yr amgylchedd, megis ynni o'r gwynt neu'r haul. Nid yw'r ffynonellau hyn yn lleihau pan gânt eu defnyddio.
- 1.4 Defnyddir y term ynni adnewyddadwy yn gyffredinol i ddisgrifio ynni 'adnewyddadwy' a thechnolegau 'carbon isel'. Er nad yw technolegau 'ynni adnewyddadwy' (megis gwynt ac ynni solar) yn creu allyriadau carbon wrth gynhyrchu ynni, mae technolegau 'carbon isel' (megis pypiau gwres o'r awyr) yn gysylltiedig ag allyriadau carbon (yn yr achos hwn, yn sgil defnyddio trydan i yrru'r motor), er ei fod yn llawer is nag hynny sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni confensiynol. Cydnabyddir y gall pypiau gwres gynhyrchu ynni carbon sero, er enghraifft, pan gaiff trydan ei gyflenwi gan ddarparwr ynni gwyrdd.
- 1.5 At ddiben y Canllaw Cynllunio Atodol hwn, bydd y term 'ynni adnewyddadwy' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel.
- 1.6 Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o'r ymrwymiad i leihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil, mynd i'r afael â newid hinsawdd a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru i sicrhau datgarboneiddio.
- 1.7 Yn ogystal â phweru a gwresogi cartrefi, adeiladau a busnesau, gall ynni adnewyddadwy gyflwyno manteision cymdeithasol ac economaidd drwy greu swyddi yn y diwydiannau gweithgynhyrchu, adeiladu a chynnal a chadw. Gall cynlluniau ynni adnewyddadwy gefnogi arallgyfeirio gwledig a chyfleoedd addysgol, a gall prosiectau ynni adnewyddadwy a berchnogir gan y gymuned ddarparu cymhelliannau a pherchnogaeth, yn ogystal â darparu hunangynhaliadau.
- 1.8 Yn ogystal, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r effeithiau niweidiol tebygol. Dylai cynlluniau ynni adnewyddadwy leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, adnoddau ac economaidd drwy ddewis safle yn ofalus, dylunio da, adeiladwaith a mesurau eraill sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol. Mae'r rhain yn 'ystyriaethau cynllunio materol' y bydd angen ymdrin â nhw ar sail safle wrth safle. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn Parciau Cenedlaethol, lle na ddylai gosodiadau effeithio'n negyddol ar eu nodweddion arbennig.

Parciau Cenedlaethol a nodweddion arbennig

- 1.9 Mae Parciau Cenedlaethol wedi'u neilltuo i warchod eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Mae cynnal cyfanrwydd ac ansawdd tirweddau Parciau Cenedlaethol yn parhau i fod yn amcan canolog. Mae'n dilyn yr egwyddor na ddylai cynlluniau arfaethedig niweidio nodweddion arbennig Parciau Cenedlaethol.

Gwerthfawr a Chydnherth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol Gorffennaf 2018

'4. Ynni gwyrdd a datgarboneiddio

Rhaid i dirweddau dynodedig ***gyfrannu at economi carbon isel cynaliadwy i Gymru***, er enghraifft, ***drwy alluogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol, rheoli dŵr a dal a storio carbon.***

Er mwyn gwarchod a gwella ansawdd eithriadol y tirweddau hyn, rhoddir amddiffyniadau arbennig i AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn y system cynllunio defnydd tir mewn cymhariaeth â gweddill y cefn gwlad. Mae hyn yn gywir. Fodd bynnag, mae hefyd yn gywir herio Awdurdodau a Phartneriaethau i gynorthwyo Gweinidogion Cymru i ryddhau'r ddyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i sicrhau bod allyriadau net o leiaf 80% yn is na'r waelodlin a nodir yn y ddeddfwriaeth yn 2050.

Drwy gynllunio a rheoli gofalus, gall y tirweddau hyn chwarae rôl allweddol wrth fodloni heriau addasu a lleihau newid hinsawdd, gan gyflawni sicrwydd ynni a chreu cymunedau gwydn a chefnogi'r amgylchedd. ***Dylai cymunedau gael cefnogaeth i gyflwyno cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol*** sydd â'r potensial i leihau dibyniaeth ar ynni yn seiliedig ar garbon a bod yn ffynhonnell referniw i'r gymuned.

- 1.10 Y nodweddion arbennig yw priodweddau a nodweddion Parc Cenedlaethol sy'n cyfrannu, naill ai'n unigol neu'n gyfunol, at wneud y Parc Cenedlaethol yn unigryw. Mae nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'u hamlinellu yng Nghlanllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd Arfordir Penfro ac yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac maent fel a ganlyn:

Nodweddion Arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- Godidowgrwydd arfordirol
- Daeareg amrywiol
- Amrywiaeth o dirweddau
- Cymeriad aneddiadau unigryw
- Amgylchedd hanesyddol cyfoethog
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Cynefinoedd a bioamrywiaeth gyfoethog
- Ynysoedd
- Hygyrchedd

- Lle i anadlu
- Pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb
- Amrywiaeth o brofiadau a chyfuniad o nodweddion unigol

- 1.11 Mae blaenoriaethau diogelu'r nodweddion arbennig hyn wedi'u hamlinellu ym Mholisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- 1.12 Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi paratoi Canllawiau ynglŷn â Dylunio a Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys canllawiau dylunio defnyddiol ar gyfer ynni adnewyddadwy, y dylai datblygwyr ac ymgeiswyr gyfeirio atynt. Adlewyrchir y canllawiau hyn yn y canllawiau technolegau penodol sy'n dilyn.
- 1.13 Yn ogystal, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi paratoi Canllawiau ynglŷn ag Effaith Gronnus Tyrbinau a fydd yn gymorth.

Cyd-destun y Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 1.14 Mae gyrrwyr polisiâu allweddol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yng Nghymru fel a ganlyn:

Polisi cenedlaethol

Ynni Adnewyddadwy (Cyffredinol)

- 1.15 **Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol:** Mae Deddf Cynllunio 2008 yn diffinio beth yw prosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae proses Deddf 2008, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, yn cynnwys archwilio cynlluniau arfaethedig sylweddol mewn perthynas ag ynni, trafniadaeth, gwastraff dŵr a dŵr gwastraff. Dan Ddeddf 2008, cyflwynir cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio. Rôl yr Awdurdod yn yr Archwiliad yw ymgynghorai statudol ac mae dan ddyletswydd i gyflwyno 'Adroddiad Effaith Lleol' i'r Awdurdod Archwilio. Cynhyrchir Datganiadau Polisiâu Cenedlaethol gan Lywodraeth y DU a gwneir penderfyniadau ar Brosiectau Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol yng nghyd-destun y datganiadau hyn.
- 1.16 **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru:** Mae sylfaen statudol ar gyfer y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'i darparu yn Rhan 5 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 a Rheoliadau dilynol. Mae Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi bod cynigion ar gyfer datblygiadau ynni mawr yn cael eu dosbarthu fel 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' ac mai Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu yn eu cylch. Fel y nodir mewn deddfwriaeth, rhaid i benderfyniadau ynghylch ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gael eu gwneud yn unol â Cymru'r Dyfodol, sef y cynllun datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae datblygiadau ynni mawr yn cynnwys pob datblygiad ynni gwynt ar y tir sy'n fwy na 10 megawat ynghyd â safleoedd eraill sy'n cynhyrchu ynni a chanddynt bŵer rhwng 10 a 350 megawat.

- 1.17 O ran Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt, mae Polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y diwedd ac wedi nodi y gellir lleoli datblygiad yno mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr yn yr ardaloedd hyn. Ni chaniateir datblygiadau ynni gwynt nac ynni'r haul mawr mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Polisi 18 yn nodi y bydd cynigion y tu hwnt i'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiadau gwynt a phob man are gyfer pob technoleg arall yn cael eu caniatáu cyn belled na chaiff y cynnig effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos (yn enwedig ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol).
- 1.18 Mae rhestr lawn o'r mathau o ddatblygiadau yr ymdrinnir â nhw dan hyn yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016.
- 1.19 Mae Adroddiad ar yr Effaith Leol hefyd yn ofynnol ar gyfer y mathau hyn o gynlluniau arfaethedig.
- 1.20 Bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio i ystyried ceisiadau cynllunio i'r awdurdod cynllunio hwn ar gyfer ffurfiau ynni adnewyddadwy ac ar gyfer paratoi Adroddiadau ar yr Effaith Leol.
- 1.21 **Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 11 2021** yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae Pennod 4 Llefydd Cynhyrchiol a Mentrus PCC yn nodi fel rhan o nod Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynaliadwyedd drwy'r system gynllunio, "Mae manteision ynni adnewyddadwy a charbon isel, fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i ymdrin â newid hinsawdd a chynyddu sicrwydd ynni, yn hollbwysig." (PCC, para.5.77, 2021).
- 1.22 Mae adran 5.9 Polisi Cynllunio Cymru, sef 'Ynni adnewyddadwy a Charbon Isel', yn nodi y dylid defnyddio'r system gynllunio i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, cynhyrchu mwy o ynni carbon isel, defnyddio mwy o ffynonellau gwres gwastraff fel hen weithfeydd glo a hyrwyddo rhwydweithiau gwres pan fo hynny'n ddichonadwy, ynghyd â chydabod bod manteision ynni adnewyddadwy yn rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy leihau allyriadau tŷ gwydr yn ogystal â chynyddu diogelwch ynni. Fodd bynnag, rhaid ystyried yr amcanion hyn ochr yn ochr â'r angen i leihau effeithiau ar gymunedau lleol, yr effaith ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol ac effeithiau cronol; gan sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu defnyddio i'w gosod yn erbyn effeithiau niweidiol posibl ar gymunedau lleol wrth sicrhau bod yr effaith bosibl ar hyfywedd economaidd yn cael ei hystyried yn llawn ac; annog gwaith uchafu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn natblygiadau newydd i hwyluso'r trosglwyddiad i adeiladau sero carbon.
- 1.23 Polisi Cynllunio Cymru 11, paragraff 5.9.8 yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol datblygu sylfaen dystiolaeth i lywio datblygiad polisiâu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai Awdurdodau Cynllunio nodi'r potensial adnoddau ynni adnewyddadwy hygyrch a chyflawniadwy ar gyfer yr ardal wrth ystyried effaith gronnydd datblygu ynni adnewyddadwy a'r seilwaith cysylltiedig. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi

ymgymryd ag asesiad o'r fath a'r asesiad hwn sy'n ffurfio cefndir y canllawiau hyn.

- 1.24 **Polisi 33 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel:** Mae Polisi 33 y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi fframwaith y polisi ar gyfer ystyried cynlluniau arfaethedig adnewyddadwy a charbon isel yn y Parc Cenedlaethol.
- 1.25 **Hawliau Datblygu a Ganiateir:** Nid yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Mae hyn oherwydd bod y mathau hyn o ddatblygiadau wedi'u hadnabod fel 'datblygiad a ganiateir', dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y "GDPO"), fel y cyflwynwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygiad) (Cymru) 2012. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys addasiadau bychain i gartrefi a mewnosod ystod eang o offer microgynhyrchu. Mae'n bwysig ystyried goblygiadau ehangach unrhyw gynigion datblygu a ganiateir. Er efallai na fydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu mewn rhai amgylchiadau, gall fod ganddo'r potensial o hyd i gael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol. Yn achosion o'r fath, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau nad yw'r datblygiad yn cyflwyno unrhyw niwed. Argymhellir i ymgeiswyr geisio cyngor gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) rhag ofn bod angen caniatâd arall (cyfreithiol), e.e. trwydded tynnu dŵr, cyn gwneud unrhyw newidiadau. Weithiau, caiff hawliau datblygu a ganiateir eu tynnu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Gall hyn ddigwydd pan roddir Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar waith. Gall hefyd godi pan roddir amod ar ganiatâd cynllunio sy'n dileu hawliau datblygu a ganiateir.

Gosodiadau Solar ar Raddfa Fechan

Beth yw Gosodiadau Solar ar Raddfa Fechan?

- 1.26 Mae technolegau solar yn ymwneud â chasglu egni gan yr haul. Y ddau fath o dechnoleg fwyaf cyffredin, a'r rheiny sy'n cael eu hystyried yma, yw dŵr poeth solar (DPS); a ffotofoltaeg solar (FfF). Yn ogystal, mae systemau yn dod i'r amlwg sy'n cynhesu aer yr adeilad gan ddefnyddio platiau casglu ar y to. Mae'r adran hon yn ymdrin â gosodiadau dŵr poeth solar a ffotofoltaeg solar ar raddfa fechan ar adeiladau. Mae rhai yn destun 'hawliau datblygiad a ganiateir'.¹ Ymdrinnir â gosodiadau solar masnachol ar raddfa caeau (gelwir yn 'ffermydd solar') yn Adran 3.
- 1.27 **Dŵr poeth solar:** Yn bennaf, mae gwresogi dŵr solar yn cael ei ddefnyddio fel technoleg ar adeilad neu wedi'i integreiddio mewn adeilad sy'n gwasanaethu anghenion yr adeilad sy'n gysylltiedig â hi. Mae'n cynnwys casglu gwres o'r haul drwy gasglwyr sy'n dda am amsugno gwres. Mae dau brif fath yn gyffredin yn y DU: casglwyr platiau fflat a chasglwyr tiwbiau gweigion, mae'r ail fwyaf effeithiol drwy gydol y flwyddyn ond yn ddrytach. Yn y ddau fath, caiff ymbelydredd o'r haul ei gasglu gan blât amsugno yn y casglwr, a'i drosglwyddo fel gwres i hylif, a all fod yn naill ai dŵr, neu hylif arbennig sy'n cael ei ddefnyddio i drosglwyddo'r ynni i'r system dŵr poeth gan ddefnyddio cyfnewidfa gwres. Dengys gosodiad dŵr poeth solar nodweddiadol yn y darlun isod.
- 1.28 **Ffotofoltaeg Solar (FfF):** Mae Ffotofoltaeg Solar (FfF) yn cynhyrchu trydan o olau'r haul. Gall Ffotofoltaeg Solar fod naill ai wedi'i osod ar do, wedi'i integreiddio mewn adeilad drwy ddefnyddio estyllen do solar, llechen solar, haen gwydr solar neu fel gosodiad annibynnol² ar ffurf fodwlar.

Panel dŵr poeth solar (system tiwbiau gweigion)



Credyd: Canolfan Ynni Cynaliadwy

¹ Lle mae hawliau o'r fath yn berthnasol, nid oes angen cais penodol am ganiatâd cynllunio.

² nad yw wedi'i osod ar adeilad.



Credyd: Canolfan Ynni Cynaliadwy

Panel FfF solar ôl-osod




Credyd: Canolfan Ynni Cynaliadwy

Teils FfF solar wedi'u hintegreiddio mewn adeiladau

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

1.29 Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael lefelau da o ymbelydredd solar, o'i gymharu â gweddill y DU (Ffigwr 2.1). Felly, mewn egwyddor:

- mae gan bob ardal yn y Parc Cenedlaethol botensial da i gynhyrchu ynni solar; a gall gosodiadau solar ar raddfa fechan wneud cyfraniad allweddol at fodloni targedau ynni adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol.



Ffigur 2.1: Arbelydriad solar y DU - Bandio Cyfanswm Blynyddol kWh/m²

Map yn dangos ymbelydredd solar blynyddol ar gyfartaledd ar ogwydd o 30° yn wynebu tua'r de

Ffynhonnell: Cymdeithas y Fasnach Solar

Dewis safle addas o fewn y Parc Cenedlaethol

- 1.30 Wrth benderfynu lle i osod systemau dŵr poeth solar a FfF solar ar raddfa fechan, y brif ystyriaeth yw uchafu amlygiad i olau haul. Yr argymhelliad cyffredinol yw bod systemau thermol solar a phanelau FfF solar:
- yn cael eu gosod ar do sy'n wynebu tua'r de, neu ar arwyneb gwastad, ar ogwydd tua'r de ar ongl o 30-40 gradd o lorweddol, ac osgoi cysgod gan strwythurau uchel cyfagos megis adeiladau a choed - a fydd yn lleihau eu gallu i gasglu ynni;
 - ystyried golygfeydd o eiddo cyfagos ac adeiladau cyfagos eraill.

Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gosodiadau solar ar raddfa fechan yn y Parc Cenedlaethol.

- 1.31 Gellir defnyddio unedau dŵr poeth solar a FfF solar ar draws y Parc Cenedlaethol, sy'n bennaf yn cael eu cysylltu ag adeiladau gan gynnwys adeiladau amaethyddol, gan gynnig datrysiad gydag effaith isel ar y dirwedd cyn belled ag y cymerir gofal i leihau gwelededd yr unedau i lefel dderbyniol. Gall y ddwy dechnoleg gael eu hôl-osod ar doeau adeiladau cyffredol gan ddefnyddio panelau ar doeau neu eu hintegreiddio yn nyluniad adeiladau newydd, megis drwy ddefnyddio estyll to FfF (gweler delweddau yn dilyn paragraff 1.28).
- 1.32 Mae adeiladau hanesyddol, adeiladau rhestredig a'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn Ardaloedd Cadwraeth adeiladau yn debygol o fod yn arbennig o sensitif i osodiadau solar ar raddfa fach). Weithiau, gall unedau solar ar doeau wedi'u hôl-osod ar adeiladau gael effaith 'foderneiddio' ar eu cymeriad

a'u hymddangosiad, yn arbennig pan maent wedi'u lleoli ar dalcen blaenaf eiddo. Felly, mae'n fuddiol i banelau solar:

- gyd-fynd â deunyddiau eraill y to;
- gorwedd yn erbyn y to ac wedi'u gosod ar yr un ongl i leihau'r gwrthgyferbyniad;
- gael eu gosod ar dalcen to ar yr ochr neu'r cefn lle maent yn debygol o fod yn llai gweladwy yn achos panelau wedi'u hôl-osod, neu wedi'u hymgorffori fel nodwedd yr ardd, yn enwedig yn achos adeiladau hŷn;
- gael eu lleoli mewn lle ac ar ongl sy'n uchafu egni'r haul a gesglir.

1.33 Y ffordd hon gall technolegau solar helpu:

- cynnal ac atgyfnerthu treftadaeth gyfoethog adeiladau ac aneddiadau hanesyddol y Parc Cenedlaethol sy'n adlewyrchu eu cymeriad lleol.
- sicrhau bod y datblygiad newydd, gwaith adfer a thrawsnewid yn atgyfnerthu a gwella cymeriad aneddiadau a'u lleoliad.
- sicrhau bod y dyluniad modern o ansawdd dda yn ffitio'n daclus ac yn cyd-fynd â thraddodiadau adeiladu'r gorffennol.

Ffotofoltaeg (PV) Solar ar Raddfa Caeau

Beth Yw Ffotofoltaeg (PV) Solar ar Raddfa Caeau?

- 1.34 Mae technolegau solar yn ymwneud â chasglu egni gan yr haul. Mae'r adran hon yn ymdrin â gosodiadau FfF solar ar raddfa caeau. Caiff gosodiadau FfF solar a thermol solar ar raddfa fechan eu trafod yn Adran 2.
- 1.35 Mae FfF solar ar raddfa caeau wedi bod yn boblogaidd ymysg datblygwyr, fodd bynnag, yn dilyn newidiadau i'r cynllun tariff cyflenwi trydan, mae FfF solar ar raddfa caeau yn gymwys am gyllid cyfyngedig yn unig.
- 1.36 Mae datblygiadau arfaethedig FfF solar ar raddfa caeau yn cynnwys grwpiau o banelau FfF solar wedi'u gosod mewn trefn o 18-20 panel gyda phob panel FfF yn nodweddiadol yn gallu cynhyrchu 220 wat o bŵer trydanol.
- 1.37 Mae pedwar math o ddatblygiad FfF solar ar raddfa caeau wedi'u hadnabod sydd â photensial i gael eu lleoli yn y Parc Cenedlaethol (wedi'u dosbarthu i adlewyrchu sensitifeddau'r dirwedd). Y rhain yw:

Maint	Arwyneb
Mawr	> 5 ha.
Canolig	3 ha. – 4.9
Bach	1 ha. – 2.9 ha.
Bach iawn	<1 ha.

- 1.38 Mae prif nodweddion gosodiadau FfF solar ar raddfa caeau yn cynnwys:
- **Panelau yn dywyll o ran lliw o ganlyniad i'w haen anadlewyrchol** i uchafu'r golau sy'n cael ei amsugno. Fodd bynnag, efallai y bydd y lliw'r paneli'n wannach yr olwg, yn dibynnu ar amodau'r golau a'r math o banel. Efallai hefyd y bydd fframiau'r paneli a'r ceblau trydan yn adlewyrchu mwy o olau. Maent wedi'u cysylltu â thwnelau polythen, byrnuau silwair wedi'u lapio mewn plastig du, neu ddŵr sefyll (h.y. cronfa ddŵr neu lyn) pan edrychir arnynt o bell. Gellir edrych ar banelau o'r tu cefn iddynt (cefn y panelau) neu o'r ochr hefyd (i lawr rhesi'r fframiau) sy'n dylanwadu'n gryf ar y ffordd mae pobl yn eu hystyried.
 - **Mae'r panelau wedi'u gosod mewn ffrâm alwminiwm**, wedi'u cefnogi gan stand alwminiwm neu ddur a'u diogelu naill ai ar 'angorau' bloc o goncrid wedi'u mowldio ymlaen llaw, neu sylfeini. Mae rhai datblygiadau yn cynnwys panelau y gellir eu troi a/neu ogwyddo â llaw sawl gwaith y flwyddyn i alluogi'r panelau i ddilyn llwybr yr haul. Mae'r dechnoleg i ganiatáu tracio awtomatig yn bodoli, ond mae'n brinnach.
 - **Cedwir y panelau ar ongl osodedig** rhwng 20-40 gradd o'r llorweddol, gan wynebu tua'r de i uchafu'r egni a amsugnir o'r haul
 - **Mae'r panelau wedi'u gosod mewn rhesi gyda bylchau** rhyngddynt ar gyfer mynediad ac i sicrhau nad yw un panel yn cysgodi panel arall. Mae trefn wirioneddol y panelau yn y dirwedd yn amrywio o un cynllun

i'r llall (h.y. strwythurau rheolaidd yn erbyn strwythurau mwy amrywiol ac afreolaidd, yn dibynnu ar leoliad y safle). Er, yn gyffredinol, mae **strwythur y panelau solar yn rheolaidd**.

- **Mae uchder rheseli'r panelau solar yn amrywio** yn dibynnu ar wneuthurwr y panelau a'r sawl a'u gosododd, ond maent yn dueddol o fod rhwng 2-4m oddi ar y llawr. Mae gan y cynllun sydd wedi'i ganiatáu ym Mharc Solar Rhos-y-Gilwen, Sir Benfro banelau a fydd yn sefyll 2.5 metr o'r ddaear ac yn cael eu cefnogi gan goesau metel.



Credyd: Ymgynghorwyr Defnydd Tîr

Panelau solar wedi'u gosod ger Berlin, yr Almaen



Credyd: Ymgynghorwyr Defnydd Tîr

Golygfa agos o banelau solar ar eu traed eu hunain

- **Mae tir pori i ddefaid neu wyddau** yn bosibl yn dibynnu ar uchder y panelau solar. Mae hon yn ffurf gydnaws ar reoli tir, gan ei bod yn

sicrhau nad yw llystyfiant sy'n tyfu yn effeithio ar effeithiolrwydd y panelau, ac yn caniatáu i waith rheoli tir gwledig traddodiadol barhau.

- Yn gyffredinol, cynhwysir **ffensys diogelwch hyd at dri metr mewn uchder** fel rhan o ddatblygiadau FfF solar ar raddfa caeau at ddibenion yswiriant. Mae hon yn dueddol o fod yn ffens rwylllog, yn aml â gwifren bigog ar y brig.
- **Mae'n bosibl bod plannu planhigion i wasanaethu fel sgrin yn angenrheidiol** i sicrhau bod y panelau solar a'r isadeiledd cysylltiedig yn cael eu cuddio o'r golwg. Rhaid gwneud hyn yn ddigon pell i ffwrdd i osgoi cysgod ar y panelau ar yr ymylon.

1.39 Yn ogystal â'r prif nodweddion a restrwyd uchod, mae agweddau eraill o ddatblygiadau FfF solar ar raddfa caeau yn cynnwys:

- Storfa dros dro ar gyfer offer, peiriannau a deunyddiau yn ystod y gwaith adeiladu.
- Gwrthdroyddion i drosi'r trydan o DC i AC - gellir gosod y rhain mewn adeiladau bychain newydd neu adeiladau sy'n bodoli eisoes.
- Newidydd / ceblau pŵer dan ddaear i drosglwyddo'r trydan i'r Grid Cenedlaethol.
- Pwerdy neu ystafell reoli ar y safle (fel arfer caban symudol gyda sylfaen goncrid). Maint yr ystafell reoli arfaethedig ar gyfer fferm solar Rhos-y-Gilwen sydd wedi'i chaniatáu oedd 10 x 8 metr.
- Teledu cylch cyfyng.

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

1.40 Mae Cymru yn lleoliad deniadol yn y DU ar gyfer y dechnoleg hon, yn sgil ei lefelau da o ymbelydredd solar, o'i chymharu â'r DU yn gyffredinol.

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

1.41 Yn gyffredinol, y safleoedd dewisol ar gyfer gosodiadau FfF solar ar raddfa caeau yw llwyfandiroedd / tir gwastad neu rediadau graddol gydag agwedd ddeheuol i uchafu effeithiolrwydd. O safbwynt effaith ar y dirwedd a logistaidd, dylid osgoi rhediadau serth.

1.42 Mae capasiti'r ceblau pŵer sy'n rhedeg yn agos i'r safle hefyd yn ystyriaeth bwysig. Gall ceblau 11kV gefnogi gosodiad panelau solar gydag allbwn o 2 neu 2.5 MW, tra gallai ceblau 33kV gefnogi panelau solar sy'n cynhyrchu hyd at 5MW neu fwy. Yn ogystal, mae'n bwysig gwirio agosrwydd yr is-orsaf drydan agosaf, y bydd y panelau solar yn gysylltiedig â hi.

1.43 Ystyriaeth arall wrth ddewis safle yw agosrwydd rhwydwaith rheilffordd a ffyrdd, llwybrau cyhoeddus ac ardaloedd preswyl. Ni ddylai darpariaeth unrhyw ddeunydd adlewyrchol a ddefnyddir ar y panelau ymyrryd â llinell welediad gyrwyr trenau a ddefnyddwyr ffyrdd (am resymau diogelwch y cyhoedd). Yn ogystal, dylid archwilio i'r potensial am lacharedd neu adlewyrchiad golau o'r panelau a all effeithio ar y signalau, a dileu'r potensial hwnnw. Yn yr un modd, dylid ystyried effaith lleoli panelau solar, yn arbennig

o ran eu hadlewyrchiad, mewn perthynas â golygfeydd o'r môr a'r effaith y gall gael ar ddefnyddwyr y môr (e.e. ar gyfer pysgota, twristiaeth a gweithgareddau masnachol eraill), golygfeydd a welir oddi ar lwybrau cyhoeddus ac oddi ar ardaloedd preswyl.

- 1.44 Dylid ystyried effaith gronnus cynlluniau lluosog, yn arbennig gan eu bod yn dueddol o glystyru o amgylch pwyntiau cyswllt â'r grid.
- 1.45 Mae'r angen i warchod tirwedd arfordirol o ansawdd dda Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cyfyngu'r lleoliadau sy'n addas i osod datblygiadau FfF solar ar raddfa caeau. Ym mis Mawrth 2011, cwblhawyd asesiad o sensitifrwydd y dirwedd i FfF solar ar raddfa caeau ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Defnyddiodd hwn Asesiad Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel sylfaen. Mae hyn yn rhannu tirwedd y Parc Cenedlaethol yn 28 Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) unigryw a phob un â'i gymeriad tirwedd unigryw ei hun. Dengys sensitifrwydd bob Ardal Cymeriad Tirwedd i wahanol raddfeydd o osodiadau FfF solar yn Ffigur 3.1 - 3.4 ac mae Atodiad 1 yn darparu sylwebaeth ar y sensitifeddu hyn a chanllawiau ynglŷn â lle a sut gellir gosod datblygiadau FfF solar yn y Parc Cenedlaethol.
- 1.46 I ddefnyddio'r wybodaeth hon, adnabyddwch y lleoliad o ddiddordeb a'r ACT berthnasol gan ddefnyddio Ffigur 3.1 - 3.4 ac adolygu'r disgrifiad sensitifrwydd a chanllawiau a ddarperir yn Atodiad 1 lle rhoddir gwybodaeth unigol ar gyfer bob ACT.

Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gosodiadau solar ar raddfa caeau yn y Parc Cenedlaethol

- 1.47 Gall gosodiadau FfF solar ar raddfa caeau ddefnyddio darnau sylweddol o dir a all fod yn weladwy (yn arbennig lle gellir gweld y safleoedd o dir uwch cyfagos). Mae prif effeithiau datblygiadau FfF solar ar raddfa caeau ar y dirwedd fel a ganlyn:
- Yn hynod weladwy mewn tirweddau agored ac ar lethrau uchaf llechweddau, yn arbennig lle mae'r safle ar draws arwynebedd sylweddol.
 - Arwain at gynnydd yn y canfyddiad bod bodau dynol yn dylanwadu ar y dirwedd.
 - Arwain at newid yn nefnydd y tir ac yn ymddangosiad cae neu gaeau, gan effeithio ar batrymau'r tir.
 - Cyflwyno ymyl rheolaidd (i'r panelau) a all fod yn arbennig o amlwg yn nhirweddau mwy afreolaidd (yn enwedig lle nad yw panelau yn dilyn cyfuchlineddau).
 - Perthi uchel lle mae uchderau panelau yn codi i 3-4m, gan o bosibl leihau amlygrwydd gweledol ffiniau caeau - bydd hyn yn fater penodol lle datblygir nifer o gaeau bach cyfagos.
 - Newid cymeriad y safle gyda ffens ddiogelwch a phlanhigion sy'n gwasanaethu fel sgrin (gan gynnwys perthi sydd wedi'u caniatáu i dyfu allan) o amgylch datblygiadau FfF.

- Niweidio nodweddion y dirwedd yn ystod y gwaith adeiladu.
- Arwain at newid sylweddol yng nghymeriad tirweddau gwyllt neu naturiol sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu gwerth cadwraeth natur uchel a nodwedd pellenigrwydd.
- Cyflwyno adeiladau ategol a all fod yn annodweddiadol yn nhirweddau mwy gwyllt ac agored.
- Arwain at lewyrch oddi ar y paneli.

1.48 Mae Atodiad 1 yn darparu canllawiau ar leoliad a lleoli datblygiadau ffotofoltaig ar raddfa caeau. Rhoddir rhestr wirio o'r prif ffactorau i'w hystyried wrth leoli ffotofoltaeg ar raddfa caeau isod:

- Lleoli unrhyw ddatblygiad oddi wrth ymyl yr arfordir fel nad yw'n tynnu oddi ar yr elfen anghysbell, drama a chymeriad naturiol yr arfordir, gan gynnal ei gymeriad agored a diamddiffyn.
- Ystyried golygfeydd ar hyd yr arfordir ac iddo, o olygfannau lleol, ac o lwybrau twristaidd poblogaidd a golygfaol (gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy eraill). Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiadau FfF solar lle gellir eu gweld yn agos yn uniongyrchol o olygfannau pwysig neu sensitif.
- Cynnal golygfeydd heb eu hymyrryd o'r arfordir i'r dirwedd fewnol i gynnal a chadw ei naws o le anghysbell ac agwedd ddiwylliannol a hanesyddol gref.
- Lleoli datblygiad FfF solar ar dir gwastad neu ar lethrau is/o fewn plygiannau yn nhirweddau tonnog graddol yn hytrach nag ar dir uwch amlwg, lethrau amlwg iawn neu bentiroedd arfordirol.
- Sicrhau nad yw datblygiadau FfF yn pontio dros wahanol fathau o dirweddau, megis ar draws trawsnewidiadau rhwng tir uchel a thir isel.
- Lleoli datblygiadau FfF ar dirweddau lle mae sgriniau eisoes yn cael eu darparu gan goetir, gwrychoedd neu berthi uchel. Lle mae angen plannu mwy ar gyfer sgriniau, dylid ymgynghori â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r dewis priodol o rywogaethau.
- Osgoi lleoli datblygiadau FfF ar draws sawl cae mewn ardaloedd sydd â phatrwm caeau afreolaidd ar raddfa fechan sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd.
- Lleoli datblygiadau FfF mewn ardaloedd sydd eisoes yn cynnwys arwyddion o weithgarwch a datblygiad dynol yn hytrach nag ar dirweddau sydd â lefel uchel o naturioldeb a phellenigrwydd.
- Ystyried sut fydd y panelau yn cael eu cludo i'r safle - mae rhai ffyrdd gwledig yn gul iawn gyda pherthi bob ochr iddynt. Dylid defnyddio cerbydau bach sy'n addas ar gyfer y ffyrdd culion rhain i sicrhau nad yw'r nodweddion hyn yn cael eu niweidio.
- Dylid defnyddio deunyddiau (megis cladid adeiladau) a lliwiau gorffenedig sy'n integreiddio unrhyw adeilad newydd yn ei amgylchiadau. Defnyddio adeiladau fferm sy'n bodoli eisoes i leoli gwrthdroyddion lle bynnag bo hynny'n bosibl.
- Osgoi niweidio cynefinoedd rhannol naturiol, a safleoedd hanesyddol ac archaeolegol dynodedig, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Gwarchod cymeriad a lleoliadau adeiladau yn Ardaloedd Cadwraeth.

- Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad FfF yn tynnu oddi ar dirnodau amlwg.
- Gwarchod nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (gweler Polisi 8).
- Dylid cymryd camau i leihau effeithiau gweledol ac effeithiau sŵn ar amwynderau unrhyw ddefnydd tir cyfagos.

Treulio Anaerobig

Beth yw treulio anaerobig?

- 1.49 Mae treulio anaerobig (TA) yn ddull o drin gwastraff a all naill ai gynhyrchu bio-nwy sydd â chynnwys methan uchel neu, yn dilyn proses gyffelyb, yn cynhyrchu hydrogen, o ddeunyddiau organig megis gwastraff amaethyddol organig, gwastraff tŷ a diwydiannol a charthion (porthiant). Gellir defnyddio'r methan neu hydrogen i gynhyrchu gwres, trydan, neu gyfuniad o'r ddau. Fel arall, gellir defnyddio hydrogen i storio ynni mewn celloedd hydrogen neu fel ffordd o gludo ynni i'w ddefnyddio yn rhywle arall.
- 1.50 Mae treulwyr anaerobig sy'n defnyddio gwastraff fferm neu fwyd yn cyflwyno manteision sylweddol. Maent yn trosi methan, nwy tŷ gwydr arwyddocaol ac is-gynnyrch mawr biswail anifeiliaid o ffermio da byw a dadelfeniad anaerobig gwastraff bwyd, yn egni (trydan a gwres). Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, drwy leihau'r symiau o fethan a ryddheir i'r atmosffer, a thrwy ddarparu ffynhonnell ynni carbon isel sy'n disodli ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil.
- 1.51 Yn nodweddiadol, mae gorsaf TA yn cynnwys tanc treulio, adeiladau i leoli offer ategol, tanc storio bio-nwy a thŵr goleuo (3 - 10m mewn uchder). Fel rheol, mae'r tanc treulio yn siâp silindr neu wŷ, ac mae ei faint yn dibynnu ar gyfaint arfaethedig a natur y gwastraff. Gall fod wedi'i gladdu'n rhannol yn y tir.
- 1.52 Mae dwy raddfa o orsafoedd treulio anaerobig sy'n berthnasol i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro:
- Gorsafoedd ar raddfa fechan sy'n ymdrin â gwastraff o un fferm (yn cynhyrchu oddeutu 10kW) gyda'r bio-nwy o bosibl yn cael ei ddefnyddio i wresogi'r tŷ fferm ac adeiladau eraill y fferm yn y gaeaf pan mae gwastraff fferm ar gael.
 - Cyfleuster canolog o faint canolig sy'n ymdrin â gwastraff o sawl fferm ac yn cael eu hychwanegu gan borthiant arall yn cynhyrchu hyd at 2MW.
- 1.53 Mae ffynonellau posibl porthiant ar gyfer gorsafoedd anaerobig yn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys:
- **Gwastraff fferm:** mae'r Parc Cenedlaethol yn ardal sy'n cynhyrchu nifer fawr o borthiant gyda nifer o ffermydd llaeth bychain sy'n cynhyrchu symiau sylweddol o fiswail fferm sy'n borthiant delfrydol. Yn ogystal, mae gweddillion TA yn wrtaith da a sefydlog nad yw'n cynnwys y problemau amgylcheddol sydd ynghlwm â biswail fferm sy'n gallu cael ei olchi i gyrsiau dŵr yn rhwydd.
 - **Cnydau amaethyddol:** Lle defnyddir gwastraff fferm mewn treulio anaerobig, mae'r rhain yn aml yn cael eu hychwanegu yn ystod yr haf gan gnydau fferm sydd wedi'u tyfu at y diben hwnnw.

- **Gwastraff prosesu bwyd:** Mae gwastraff bwyd a gynhyrchir yn y Parc Cenedlaethol yn ffynhonnell bosibl.
- **Planhigion eraill:** Mae ffynonellau eraill o lystyfiant wedi'u hystyried fel porthiant ar gyfer treuliad anaerobig yn cynnwys llystyfiant gwastraff sy'n codi o weithgareddau rheoli tir.

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 1.54 Bydd y potensial am dreulio anaerobig yn dibynnu ar argaeledd porthiant addas yn yr ardal.

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

- 1.55 Mae gorsafoedd TA ar raddfa fechan a'r rheiny sy'n ymdrin â gwastraff o un neu ddwy fferm yn cynnig potensial sylweddol i gynhyrchu trydan a gwres yn y Parc Cenedlaethol. Cyn belled â bod treulwyr wedi'u hintegreiddio yng nghyfadeiladau'r fferm, neu grwpiau o adeiladau'r fferm, a bod sgriniau naturiol wedi'u darparu lle bynnag sy'n bosibl, gellir ymgorffori treulwyr bychain yn y dirwedd ehangach ac ni ddylent fynd yn groes i amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Bydd treulwyr mwy, sydd wedi'u rhannu rhwng nifer o ffermydd, neu wedi'u lleoli i ddarparu gwres ac ynni i grwpiau o dai, angen cael eu hystyried o ran symudiadau traffig a'r effeithiau bosibl ar y dirwedd a'r amgylchedd adeiledig.
- 1.56 Mae gorsafoedd TA masnachol mawrion yn annhebygol o fod yn dderbynol yn y Parc Cenedlaethol, oherwydd graddfa'r datblygiad a'r symudiadau lorïau / tractorau sydd eu hangen i gyflenwi'r porthiant yn ystod y flwyddyn. Fel y pwysleisiwyd yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru Awst 2008, Atodiad J, mae parciau cenedlaethol yn cael eu heithrio yn awtomatig rhag ardaloedd i chwilio am safleoedd rheoli gwastraff is-ranbarthol. Yn ogystal, mae Polisi 27 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol yn darparu ar gyfer cyfleusterau sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf yn hytrach na'r ardal ehangach.

Prif sensitifrwydd tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gorsafoedd treulio anaerobig yn y Parc Cenedlaethol

- 1.57 Mae ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol lle dylid osgoi datblygiad TA ar unrhyw raddfa fel a ganlyn:
- Ardaloedd gwledig, llonydd lle mae dylanwad dynol yn cael ei gyfyngu.
 - Ymyl yr arfordir.
 - Bob ardal sy'n gynefin rhannol-naturiol.
 - Ardaloedd sydd â chymeriad hanesyddol cryf.
- 1.58 Rhoddir rhestr wirio o'r prif ffactorau i'w hystyried wrth leoli gorsafoedd treulio anaerobig ar raddfa fechan neu ganolig isod:
- Dylent fod wedi'u hintegreiddio mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes neu ffermydd cyfredol neu'n gyfagos iddynt.
 - Dylai'r tanc treulio fod wedi'i gladdu'n rhannol yn y tir.

- Ni ddylid lleoli gosodiadau yn lleoliadau amlwg neu nenlinellau agored - gall y tŵr goleuo fod yn amlwg.
- Ni ddylai'r gosodiadau fod yn amlwg mewn golygfeydd allweddol, yn arbennig y rheiny ar hyd yr arfordir.
- Dylai tirnodau cyfredol (er enghraifft tyrau eglwysi a meindyrau) barhau i fod yn amlwg ac ni ddylai gosodiadau dynnu oddi ar olygfeydd y tirnodau hyn.
- Ni ddylai gosodiadau effeithio ar werth hanesyddol y nodweddion diwydiannol dynodedig, cofadeiladau hanesyddol a safleoedd ac olion archaeolegol, na gwerth ecolegol cynefinoedd rhannol-naturiol.
- Ni ddylai gosodiadau niweidio cymeriad ac ymddangosiad unrhyw adeilad yn Ardaloedd Cadwraeth ac adeiladau rhestredig.
- Dylid defnyddio deunyddiau (megis cladin adeiladau) a lliwiau gorffenedig addas sy'n integreiddio strwythurau yn eu hamgylchiadau.
- Dylid ystyried plannu coed (gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol) sy'n helpu i hidlo golygfeydd o'r orsaf TA o fannau golygfeydd cyhoeddus allweddol. Gall hyn gynnwys plannu coed yn bell oddi wrth yr orsaf treuliad anaerobig.
- Dylid cymryd mesurau i leihau unrhyw effeithiau gweledol, arogl a sŵn sy'n gysylltiedig â gweithredu'r orsaf a danfon porthiant ar amwynderau unrhyw ddefnydd tir cyfagos.

Gorsafoedd Biomas

Beth yw gorsafoedd biomas?

1.59 Mae gorsafoedd biomas yn gysylltiedig â chynhyrchu gwres drwy losgi planhigion. Bydd yr allbwn terfynol naill ai'n wres neu drydan. Ar gyfer cynhyrchu trydan, defnyddir y gwres / stêm i droi tyrbîn. Ar hyn o bryd mae tri chategori sylfaenol o orsafoedd biomas:

- **Gorsafoedd sydd wedi'u dylunio yn bennaf ar gyfer cynhyrchu trydan.** Yn gyffredinol, dyma'r cynlluniau mwyaf, rhwng 10 - 40 MW. Nid yw'r gwres dros ben o'r broses yn cael ei ddefnyddio. Mae'r gorsafoedd hyn yn ddatblygiadau mawrion gwerth miliynau o bunnoedd ac yn annhebygol o fod yn addas yn y Parc Cenedlaethol oherwydd graddfa'r datblygiad a'r symudiadau traffig cysylltiedig. **Felly, ni chânt eu hystyried ymhellach yma.**
- **Gorsafoedd gwres a phŵer cyfun** lle mai'r prif ddiben yw cynhyrchu trydan ond caiff y gwres dros ben ei ddefnyddio, er enghraifft, fel gwres proses ddiwydiannol neu gynllun gwresogi ardal. Yr ystod maint nodweddiadol ar gyfer gwres a phŵer cyfun yw cyfanswm allbwn ynni thermol o 5 i 30 MW ond mae cynlluniau llai o ychydig gannoedd o Gilowatau wedi'u hadeiladu yn y DU.
- **Planhigion wedi'u dylunio ar gyfer cynhyrchu gwres.** Mae'r rhain yn ymdrin ag ystod eang o gymwysiadau o stofiau llosgi coed domestig a boeleri biomas i foeleri ar raddfa sy'n addas ar gyfer gwresogi ardal, adeiladau masnachol a chymunedol a gwres proses ddiwydiannol. Gall maint amrywio o ychydig gilowatau i fwy na 5 MW o ynni thermol.

1.60 Caiff systemau gwres biomas (a systemau gwres a phŵer cyfun) ar raddfa fechan a chanolig ar gyfer safle masnachol, cyfleusterau twristiaeth/cyfaddailadau llety, cyfleusterau cymunedol (ysgolion, canolfannau hamdden, adeiladau cyhoeddus) a grwpiau o aneddiadau eu nodweddu yn ôl y canlynol:

- Boeler (a boelerdy) a chyfleusterau storio cysylltiedig. Gall gorsaf wres fechan ar gyfer ysgol gynnwys boelerdy 4m x 4m gyda byncer tanwydd o faint cyffelyb, a all fod dan ddaear, sydd â chaead dur y gellir ei gloi.
- Simnai - ar gyfer gorsaf fechan megis yr un a ddisgrifir uchod, bydd y simnai yn 3m i 10m o uchder, yn dibynnu ar ddyluniad yr orsaf a'r adeiladau o'i hamgylch.
- Digon o le i lori fawr neu dractor a threlar allu symud yn ddiogel i ddanfôn tanwydd.

1.61 Mae systemau domestig, gan gynnwys stofiau llosgi coed a biomas, yn cynnwys y nodweddion / gofynion canlynol:

- Mae stofiau llosgi coed o faint gwresogydd ystafell nodweddiadol a gellir eu gosod â boeler cefn tân i wresogi dŵr yn ogystal ag ystafelloedd. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn defnyddio boncyffion wedi'u llifio.
 - Caiff boeleri biomas eu cysylltu â systemau gwres canolog a dŵr poeth yn gyffredinol yn fwy na 15 kW ac yn defnyddio naill ai pelenni coed neu sglodion pren, er gall rhai ddefnyddio boncyffion wedi'u llifio.
 - Stofa tanwydd, yn nodweddiadol 7m³ o belenni pren neu 21 - 35m³ o sglodion pren.
 - Mynediad at ddanfoniadau swmp o danwydd coed gan lori neu dancer.
- 1.62 Y tri phrif danwydd a ddefnyddir mewn systemau gwresogi biomas yw coed (a ddefnyddir yn bennaf mewn stofiau llosgi coed), sglodion coed a phelenni coed.

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 1.63 Yn y Parc Cenedlaethol y prif botensial yw ar gyfer systemau gwresogi biomas ar raddfa ganolig, fechan a domestig, yn ogystal â gorsafodd gwres a phŵer cyfun ar raddfa fechan yn gwasanaethu grŵp o aneddiadau neu gasgliad arall o adeiladau. Ym mhob achos, dylai graddfa'r datblygiad gyd-fynd â graddfa'r dirwedd neu'r anheddiad lle mae'r datblygiad wedi'i leoli.
- Mae gorsafodd ar raddfa mwy yn annhebygol o fod yn addas.**

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

- 1.64 Mae systemau gwresogi biomas ar raddfa gymunedol neu ddomestig sy'n defnyddio tanwydd coed lleol yn cyflwyno gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau CO₂. Yn ogystal, byddant yn darparu ysgogiad y mae gwir angen amdano i'r gadwyn gyflenwi tanwydd coed leol ac, yn eu tro, byddant yn helpu i amrywio a chryfhau'r economi leol yn seiliedig ar y tir. Felly, maent yn cyflwyno manteision sylweddol, gyda chynlluniau cartref a chymunedol sy'n gyffredinol rhwydd i'w cynnwys yn strwythur adeiledig y Parc Cenedlaethol.
- 1.65 Cyn belled â'u bod wedi'u hintegreiddio yn dda yn yr amgylchedd adeiledig, mae gan orsafoedd biomas y potensial i gael eu mewnosod ar draws y Parc Cenedlaethol.

Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli gorsafodd biomas yn y Parc Cenedlaethol

- 1.66 Bydd adeiladau hanesyddol, adeiladau rhestredig a'r rheiny wedi'u lleoli yn yr Ardaloedd Cadwraeth yn gofyn gofal wrth leoli strwythurau a simneiau newydd.
- 1.67 Gweler rhestr wirio isod o'r prif ffactorau i'w cymryd i ystyriaeth wrth leoli cyfleusterau biomas ar raddfa fechan a chymunedol sy'n gofyn adeilad newydd a/neu ychwanegu simnai:

- Integreiddio unrhyw strwythur newydd o fewn cyfadeiladau cyfredol.
- Osgoi lleoli gosodiadau gweladwy mewn lleoliadau amlwg ar ymyl agored yr arfordir neu ar nenlinellau agored.
- Sicrhau bod tirnodau cyfredol (er enghraifft tyrau eglwysi a meindyrau) yn parhau i fod yn amlwg ac ni ddylai gosodiadau dynnu oddi ar olygfeydd y tirnodau hyn.
- Ni ddylai'r gosodiadau fod yn amlwg mewn golygfeydd allweddol, yn arbennig y rheiny ar hyd yr arfordir.
- Ni ddylai gosodiadau effeithio ar werth hanesyddol y nodweddion diwydiannol dynodedig, cofadeiladau hanesyddol a safleoedd ac olion archaeolegol, na gwerth ecolegol cynefinoedd rhannol-naturiol.
- Ni ddylai gosodiadau niweidio cymeriad ac ymddangosiad unrhyw adeilad yn Ardaloedd Cadwraeth ac adeiladau rhestredig.
- Dylid defnyddio deunyddiau (megis cladin adeiladau) a lliwiau gorffenedig addas sy'n integreiddio strwythurau yn eu hamgylchiadau.
- Dylid cymryd mesurau i leihau unrhyw effeithiau gweledol, arogl a sŵn sy'n gysylltiedig â gweithredu'r orsaf a danfon porthiant ar amwynderau unrhyw ddefnydd tir cyfagos.

2 Micro-Hydro

Beth yw Micro-hydro?

- 2.1 Mae pŵer hydro yn defnyddio dŵr yn llifo o lefel uwch i lefel is i yrru tyrbin sy'n gysylltiedig â generadur trydanol, gyda'r ynni yn cael ei gynhyrchu yn gymesur â chyfaint y dŵr a'r cwmp fertigol o'r pen.
- 2.2 Mae gorsafoedd pŵer hydro ar raddfa fechan yn y DU yn gyffredinol yn cyfeirio at safleoedd sy'n cynhyrchu hyd at rai cannoedd o gilowatau lle caiff trydan ei fwydo'n uniongyrchol i'r Grid Cenedlaethol. Yn aml, cyfeirir at orsafoedd ar ochr leiaf y raddfa hon (yn nodweddiadol dan 100kW) fel gorsafoedd micro-hydro a gallant gynnwys cynlluniau sy'n darparu pŵer i un cartref.
- 2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau addas yn debygol o fod ar gyfer cynlluniau llif afon, lle cymerir rhan o lif afon o du ôl i gored isel a'i ddychwelyd i'r un cwrs dŵr i lawr yr afon ar ôl bod drwy'r tyrbin. Mae lleoliadau priodol ar gyfer cynlluniau 'storio', lle caiff yr afon gyfan ei chronni a'r llif ei rhyddhau drwy dyrbinau pan mae angen pŵer, yn annhebygol o fodoli. Mae prif elfennau cynllun micro-hydro llif afon fel a ganlyn:
 - Ffynhonnell ddŵr a fydd yn darparu cyflenwad rhesymol gyson. Mae angen digon o ddyfnder yn y dŵr yn y man lle tynnir dŵr o'r cwrs dŵr, a chyflawnir hyn drwy adeiladu cored ar draws y cwrs dŵr sy'n ddigon uchel i lenwi'r llifddor neu fewnlif.
 - Piblinell, sydd yn aml yn cael ei hadnabod fel 'llifddor', i gysylltu'r mewnlif â'r tyrbin. Mae'n bosibl y bydd angen sianel fechan, agored rhwng y mewnlif a'r biblinell.
 - Gorchudd / sied bach i gadw'r tyrbin, generadur a'r offer ategol - y 'tŷ tyrbin'.
 - Sianel i ddychwelyd y dŵr i'r cwrs dŵr.
 - Cysylltiad â'r rhwydwaith trydan, neu safle'r defnyddiwr.

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 2.4 Mae pŵer hydro wedi datblygu'n dda yng Nghymru lle mae gan y rhan fwyaf o'r safleoedd sydd â'r potensial i gynhyrchu mwy na 1 MW wedi'u hecsbloetio. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr opsiynau realistig fydd micro-hydro llif afon gyda chapasiti gosodedig yn llai na 100kW ac adfer melinau traddodiadol (melinau afonydd a melinau llanw).

Cynlluniau Rheoli Basnau Afon a Thrwyddedau Tynnu Dŵr

- 2.5 Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i dalu sylw i Gynlluniau Rheoli Basnau Afon wrth ddefnyddio eu pwerau cynllunio. Ar gyfer cynlluniau pŵer hydro, mae hyn yn golygu sicrhau na fydd y datblygiad pŵer hydro yn cyfaddawdu'r gallu i gyflawni:
 - Amcanion amgylcheddol Cynllun Rheoli y Basn Afon;

- Statws / potensial ecolegol da y corff dŵr; a
- Ddim yn niweidio statws ansawdd y dŵr.

2.6 Ar gyfer bob cynllun pŵer hydro, bydd angen cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi trwydded tynnu dŵr. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen Trwydded Gronni a Chaniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

- 2.7 Gellir integreiddio cynlluniau micro-hydro yn y dirlun gyda lleoliad a dyluniad priodol, gan ddefnyddio'r tirffurf a'r llystyfiant sy'n bodoli yno eisoes i helpu i sgrinio lleoliad y tyrbîn bach newydd.
- 2.8 Bydd gwaith adfer sensitif hen safleoedd melinau dŵr neu strwythurau eraill (e.e. coredau, llynnoedd melinau, olwynion dŵr neu ffrydiau, llifddorau a sianelau allbwn) yn cyflwyno manteision cadwraeth sylweddol y tu hwnt i gynhyrchu trydan.

Sensitifrwydd tirwedd allweddol a chanllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cynlluniau micro hydro yn y Parc Cenedlaethol

- 2.9 Dylid nodi'r rhestr wirio ganlynol wrth leoli cynlluniau micro hydro ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro.
- Gellir cuddio cynlluniau hydro sydd wedi'u lleoli mewn afonydd gyda choed bob ochr yn fwy rhwydd na'r rheiny mewn tirweddau agored.
 - Yn ardaloedd fwy agored, bydd dyluniad o safon uchel yn helpu i leihau'r effeithiau gweledol, gan gynnwys defnyddio deunyddiau lleol ar gyfer coredau a strwythurau adeiledig ynghyd â sgriniau o llystyfiant.
 - Gall claddu pibellau a lleihau'r arwynebau caled a phlannu 'ffurfiol' helpu i integreiddio cynlluniau mwy gweladwy yn y dirwedd wledig.
 - Mae melinau sy'n Adeiladau Rhestredig a/neu wedi'u lleoli mewn Ardal Cadwraeth yn gofyn gwaith adfer sensitif sy'n parchu strwythurau'r adeilad gwreiddiol.
 - Dylid cymryd camau i leihau effeithiau gweledol ac effeithiau sŵn ar amwynderau unrhyw ddefnydd tir cyfagos.

3 Pymphiau Gwres o'r Ddaear a Ffynonellau Aer

Beth yw pymphiau gwres o'r ddaear a ffynonellau aer?

Pymphiau gwres o'r ddaear

- 3.1 Mae systemau pymphiau gwres o'r ddaear (PGoDd) yn casglu'r ynni yn y tir sydd o gwmpas (neu o dan hyd yn oed) adeiladau neu o ddŵr (afonydd, camlesi, llynnoedd neu ddyfrhaenau dan ddaear). Yn y bôn, maent yn defnyddio ynni thermol gradd isel o'r tir a chylchred rheweiddiad i ddarparu ynni gwres ar dymereddau uwch, (yn nodweddiadol, 40-45°C) neu dymereddau isel, gan ddefnyddio cylchred i'r gwrthwyneb, ar gyfer oeri (yn nodweddiadol, 6-12°C).
- 3.2 Mae systemau PGoDd yn casglu neu ddarparu gwres gan ddefnyddio casglwyr yn y ddaear (yn nodweddiadol, coiliau neu ddolenni pibellau wedi'u gosod mewn ffosydd yn y ddaear neu dyllau turio fertigol), lle mae hylif cyfnewid gwres yn cylchredeg mewn dolen gaeedig ac yn trosglwyddo gwres drwy gyfnewidiwr gwres i'r pwmp gwres neu oddi wrtho. Mae'r pwmp gwres ei hun o faint cyffelyb i oergell fawr ac wedi'i leoli y tu mewn i'r adeilad. Mae PGoDd nodweddiadol yn cynnwys y canlynol:
 - Pwmp gwres.
 - Dolen gasglu yn y ddaear (a ellir ei gosod mewn ffos neu dyllau turio).
 - System ddsbarthu gwres neu oeri fewnol.
 - Tyllau turio neu ffosydd - mae tyllau turio wedi'u tyllu i ddyfnder o rhwng 15 - 150 metr yn elwa o dymereddau daear uwch na ffosydd.
- 3.3 Unwaith cânt eu mewnosod, nid oes nodweddion gweladwy allanol ynghlwm â phymphiau gwres o'r ddaear.

Pymphiau gwres ffynhonnell aer

- 3.4 Mae pwmp gwres ffynhonnell aer (PGFfA) yn defnyddio'r aer fel ffynhonnell wres i wresogi adeilad. Gellir eu disgrifio fel uned aer dymheru sy'n gweithredu i'r gwrthwyneb. Fel rheol, mae pymphiau gwres ffynhonnell aer wedi'u gosod ar wal allanol (weithiau o dan ffenestr). Yn fwyfwy, mae gweithgynhyrchwyr yn cynhyrchu pymphiau gwres ffynhonnell aer wedi'u gosod yn fewnol sydd angen lwfrau a/neu fentiau yn y to ar gyfer cyflenwad aer/allyriadau gwacáu (fel boeler confensiynol). Mae pymphiau gwres ffynhonnell aer yn dueddol o fod yn llawer mwy rhwydd a rhatach i'w mewnosod na phymphiau gwres o'r ddaear (gan nad oes angen iddynt gael dolenni casglu gwres allanol). Unwaith y cânt eu gosod, mae'n bosibl mai'r unig strwythur gweladwy allanol fydd yr 'uned aer dymheru' sy'n gysylltiedig â'r cyfleuster pwmp gwres, er fel y nodwyd uchod, mae pymphiau wedi'u gosod y tu mewn ar gael yn fwyfwy bellach ac nid oes gan y rheiny effaith weledol allanol. Yn dibynnu ar y gweithgynhyrchwr, mae'n bosibl nad yw pymphiau gwres ffynhonnell aer yn fwy swnllyd na boeler gwres canolog.

- 3.5 Ar gyfer y ddwy dechnoleg, bydd y tymreddau a gynhrychir yn gyffredinol oerach na'r rheiny sy'n gysylltiedig â systemau gwres confensiynol. Felly, maent yn well am gefnogi systemau gwres dan y llawr (yn achos PGoDd) neu systemau aer cynnes drwy bibell (yn achos PGFfA). Fodd bynnag, mae ystodau o gynhrychion newydd yn dod i'r amlwg y gellir eu hól-osod i systemau gwresogi confensiynol mewn tai.

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 3.6 Mae cyfleoedd i ddefnyddio pypiau gwres o'r ddaear a ffynhonnell aer ledled y Parc Cenedlaethol.

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

- 3.7 Oherwydd eu heffeithiau ansylweddol ar y dirwedd, gellid ystyried bob ardal yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer mewnosod pypiau gwres o'r ddaear a ffynhonnell aer.

Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli pypiau gwres o'r ddaear a ffynhonnell aer yn y Parc Cenedlaethol

- 3.8 Dylid nodi'r rhestr wirio ganlynol wrth leoli pypiau gwres o'r ddaear neu ffynhonnell aer ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro:
- Gellir gorchuddio'r gwaith pibellau dan ddaear sy'n gysylltiedig â phypiau gwres o'r ddaear gydag arwynebau meddal neu galed ac felly ni fydd y system yn weladwy o du allan i'r adeilad.
 - Yn ystod y gwaith adeiladu, dylai'r gwaith o osod pibellau sy'n gysylltiedig â phypiau gwres o'r ddaear osgoi aflonyddu tir a fyddai'n anodd ei adfer, megis glaswelltir heb ei wella, cynefinoedd rhannol naturiol, gwreiddiau coed ac olion archaeolegol.
 - Mae'n bosibl y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gofyn arolwg archaeolegol cyn adeiladu pypiau gwres o'r ddaear a bydd angen ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.
 - Dylid gosod pypiau gwres ffynonellau aer ar y talcenni sydd lleiaf gweladwy, meis talcen cefn neu ochr yr adeilad os yw'n defnyddio uned wedi'i osod y tu allan. Mae unedau mewnol yn briodol yn unrhyw le yn y Parc Cenedlaethol.
 - Dylid cymryd camau i leihau effeithiau gweledol ac effeithiau sŵn ar amwynderau unrhyw ddefnydd tir cyfagos.

System Gwresogi Ardal

Beth yw system gwresogi ardal?

- 3.9 Mae gwresogi ardal yn disgrifio isadeiledd sy'n darparu gwres i nifer o adeiladau o ffynhonnell wres ganolog drwy rwydwaith o bibellau, i ddarparu'r gallu i wresogi gofod a dŵr poeth. Gan ddefnyddio'r isadeiledd cyfrannol hwn, fel rheol gellir cynhyrchu gwres a'i ddarparu'n fwy effeithiol na nifer o systemau unigol. Mae potensial sylweddol ar gyfer systemau gwresogi ardal yn y DU, er dim ond rhai systemau sydd yn eu lle ar hyn o bryd.
- 3.10 Fel rheol, mae'r dechnoleg yn cynnwys:
- Canolfan ynni.
 - Rhwydwaith o bibellau wedi'u hynysu.
 - Cyfres o gyfnewidwyr gwres gyda mesuryddion gwres mewn adeiladau sy'n cael eu cyflenwi â gwres.
- 3.11 Gellir mewnosod y rhwydwaith pibellau ar yr un pryd â gwasanaethau eraill (dŵr, system ddraenio, etc.) i leihau costau mewn datblygiadau newydd. Yn ogystal, gellir ôl-osod systemau gwresogi ardal mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes, er mae hyn yn dueddol o fod yn broses fwy cymhleth.
- 3.12 Gall cynlluniau gwresogi ardal adnewyddadwy wneud defnydd o foeleri biomas, treulio anaerobig a phympiau gwres o'r ddaear o bosibl. Gall y ffynhonnell ynni ganolog gynhyrchu gwres ar ei phen ei hun, neu gellir ei dylunio fel gorsaf Gwres a Phŵer Cyfun (GPhC) i gynhyrchu trydan a gwres.
- 3.13 Gall systemau gwresogi ardal amrywio o system ar raddfa fechan, e.e. boeler biomas yn cyflenwi grŵp o ddeg anheddiad, i gynlluniau ar raddfa fawr yn cyflenwi canolfannau tref neu gymunedau, er bod systemau mwy yn annhebygol o fod yn briodol yn y Parc Cenedlaethol.
- 3.14 Mae systemau gwres ardal yn hyblyg o ran eu ffynonellau ynni, a gellir tarddu gwres o ystod eang o danwydd, gorsafoedd a mathau prosesau trawsnewid, gan gynnwys boeleri nwy traddodiadol, boeleri biomas, systemau gwres a phŵer cyfun nwy neu fiomas a threulio anaerobig. Gan fod rhwydweithiau gwres ardal wedi'u dylunio i bara am nifer o flynyddoedd; mae'r hyblygrwydd hwn hefyd yn sicrhau bod y system yn gallu addasu i welliannau technegol ar ôl iddi gael ei gosod.

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 3.15 Mae cwmpas sylweddol ar gyfer system gwresogi ardal ar raddfa fechan yn gysylltiedig â'r cyfleusterau cymunedol yn y Parc Cenedlaethol, megis pyllau nofio, canolfannau hamdden, neuaddau chwaraeon, canolfannau dydd a chymunedol, o bosibl wedi'i chyfuno â datblygiad cyfagos newydd. Gall cyfleoedd eraill gynnwys cyfuno gofynion gwresogi/oeri ar gyfer gwestai cyfagos, er enghraifft, yn Ninbych-y-pysgod, Saundersfoot a Thyddewi lle

mae nifer o westai yn agos at ei gilydd; neu safleoedd busnesau bychain cyfagos yn aneddiadau mwy'r Parc Cenedlaethol. Mae angen i'r cyfleusterau sy'n cael eu gwresogi fod yn agos at ei gilydd i leihau costau'r pibellau dosbarthu ac i leihau colledion thermol.

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

- 3.16 Bydd y cyfleoedd mwyaf priodol yn gynlluniau gwresogi ardal ar raddfa fechan yn gysylltiedig â datblygiadau newydd ym mhrif aneddiadau'r Parc Cenedlaethol, a chynlluniau ar raddfa fechan yn gysylltiedig â chyfleuster sydd eisoes yn bodoli sydd â gofyniad gwres ynni uchel.

Prif sensitifeddau tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cynlluniau gwresogi ardal yn y Parc Cenedlaethol

- 3.17 Cyfeiriwch at y wybodaeth yn adran arall y CCA hyn ar gyfer y dechnoleg(au) berthnasol sy'n dueddol o fod ynghlwm â chynllun gwresogi ardal.

4 Ynni Gwynt

Beth yw ynni gwynt?

- 4.1 Tyrbinau gwynt yw un o'r technolegau adnewyddadwy mwyaf adnabyddus a dealliedig. Mae tyrbinau gwynt yn defnyddio grymoedd codi'r gwynt i gylchdroi llafnau aerodynameg sy'n troi rotor gan greu grym mecanyddol sy'n cynhyrchu trydan. Mae'r swm o ynni a geir o dyrbin gwynt yn dibynnu ar gyflymder y gwynt ac arwynebedd ysgubo'r llafn (y mwyaf yw arwynebedd ysgubo'r llafn, y mwyaf o bŵer y bydd y tyrbin yn ei gynhyrchu). Ar y cyfan, rhoddir caniatâd cynllunio i dyrbinau gwynt am 25 mlynedd, er mae'n bosibl y bydd angen ail-bweru (darparu cenhedlaeth newydd o dyrbinau) ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben.
- 4.2 Gellir defnyddio tyrbinau gwynt yn unigol, mewn clystyrau bychain, (2 - 5 tyrbin) neu mewn grwpiau mwy fel ffermydd gwynt (fel rheol, 5 neu fwy o dyrbinau). Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, er mwyn gwarchod nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, yr unig botensial fydd tyrbinau unigol neu, mewn achosion penodol iawn, clystyrau bychain o 2 - 3 tyrbin.
- 4.3 Ym mhob achos mae tyrbinau gwynt yn cynnwys:
- y tŵr
 - hyb
 - llafnau
 - nasél (sy'n cynnwys generadur a gerbocsys);
 - newidydd y gellir ei osod naill ai y tu mewn i'r nasél neu wrth droed y tŵr.
- 4.4 Mae gofynion yr isadeiledd ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr, yn ogystal â'r tyrbin ei hun, yn cynnwys:
- ffordd mynediad at y safle (fel rheol, safn neu gyfwerth oddi ar y brif ffordd ond gall gynnwys lledu'r ffyrdd llai i gyflawni'r mynediad os yw'r tyrbinau yn fawr)
 - llwybr ar y safle (ar gyfer gwaith adeiladu a chynnal a chadw parhaus)
 - sylfeini tyrbinau
 - un nwy fwy o fastiau anemometr
 - ceblau trydan ac is-orsaf drydanol/adeilad rheoli yn ogystal â chysylltiad â'r grid.
 - ardaloedd o lawr caled ar gyfer y craen dros dro
 - lle caeëdig dros dro
- 4.5 Mae datblygiadau ynni gwynt yn unigryw mewn perthynas â strwythurau tal eraill yn y dirwedd, oherwydd eu bod yn cyflwyno ffynhonnell o symudiad i'r diwedd. Yn y rhan fwyaf o'r dyluniadau cyfredol, mae llafnau'r tyrbin yn troi o amgylch echel lorweddol (gweler y darlun isod) ond yn rhai dyluniadau, sydd wedi'u defnyddio yn y Parc Cenedlaethol ac o'i gwmpas, mae'r llafnau yn troi o amgylch echel fertigol. Mae tyrbinau â dau lafn hefyd ar gael.



Credyd: Ymgynghorwyr Defnydd Tîr

Tyrbinau gwynt â dau neu dri llafn yn troi ar yr echel lorweddol



Credyd: Ymgynghorwyr Defnydd Tîr

Tyrbin echel fertigol

4.6 Yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae tyrbinau gwynt o bedwar maint wedi'u hadnabod (wedi'u dosbarthu i adlewyrchu sensitifeddau tirwedd y Parc Cenedlaethol). Y rhain yw:

Maint	Uchder ¹	Allbwn ynni ²
Mawr	65m – 125m	330kW - 3MW
Canolig	25m – 65m	50kW - 330kW
Bach	<25m	10 kW - 50 kW
Micro	Wedi'i osod ar adeilad neu fast	< 10kW

1 Uchder hyd at ben y llafn

2 Mae'r effeithlonrwydd a'r allbwn ynni yn cynyddu drwy'r amser ac felly mae'r gwerthoedd yn dueddol o godi

Potensial technolegol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- 4.7 Ar y cyfan, mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro adnodd ynni gwynt da o'i gymharu â rhannau eraill y DU. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ar hyn o bryd mae BWEA3 yn awgrymu bod tyrbîn mawr angen cyflymder gwynt cyfartalog o fwy na 7m/s i fod yn ddichonadwy. Gall tyrbînau gwynt llai fod yn ddichonadwy gyda chyflymderau gwynt cyfartalog mor isel â 5m/s.

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

- 4.8 Mae'r potensial am ddatblygiad ynni gwynt yn y Parc Cenedlaethol wedi'i gyfyngu gan yr angen i warchod nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae peth potensial am un tyrbîn gwynt, neu yn ardaloedd mwy cyfyngedig, clystyrau bychain o 2 - 3 tyrbîn bach wedi'u lleoli yn ofalus.
- 4.9 Cwblhawyd asesiad o sensitifrwydd y dirwedd i wahanol feintiau o dyrbinau gwynt yn 20084. Defnyddiodd hwn Asesiad Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel sylfaen. Mae hyn yn rhannu tirwedd y Parc Cenedlaethol yn 28 Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) unigryw a phob un â'i gymeriad tirwedd unigryw ei hun. Dengys sensitifrwydd bob Ardal Cymeriad Tirwedd i bob dosbarth uchder tyrbînau yn Ffigwr 9.1 - 9.3 ac mae Atodiad 2 yn darparu sylwebaeth ar y sensitifeddu hyn a chanllawiau ynglŷn â lle a sut gellir gosod datblygiadau tyrbînau gwynt yn y Parc Cenedlaethol. I ddefnyddio'r wybodaeth hon, adnabyddwch y lleoliad o ddiddordeb a'r ACT berthnasol gan ddefnyddio Ffigwr 9.1 - 9.3 ac adolygu'r disgrifiad sensitifrwydd a chanllawiau a ddarperir yn Atodiad 2 lle rhoddir gwybodaeth unigol ar gyfer bob ACT. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn wedi'u diweddarau i gymryd i ystyriaeth lle mae tyrbînau gwynt wedi arwain at newid gweladwy yng nghymeriad y dirwedd o ganlyniad i'r diweddariad LANDMAP gan Cyfoeth Naturiol Cymri fis Mawrth 2015.

Prif sensitifeddu tirweddau a'r canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cynlluniau ynni gwynt yn y Parc Cenedlaethol

³ Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain (BWEA): Ynni Gwynt: Canllaw i ffermydd a busnesau gwledig (Tachwedd 1994)

4.10 Mae ffigyrau 9.1 - 9.3, ac Atodiad 2 yn crynhoi prif sensitifeddu y dirwedd i osodiadau ynni gwynt yn y Parc Cenedlaethol. Rhoddir rhestr wirio o'r prif ffactorau i'w hystyried wrth leoli datblygiadau ynni gwynt isod:

- Lleoli unrhyw ddatblygiad ynni gwynt oddi wrth ymyl yr arfordir fel nad yw'n tynnu oddi ar yr elfen anghysbell, drama a chymeriad naturiol yr arfordir.
- Lleoli unrhyw ddatblygiad ynni gwynt (oni bai am y rheiny o fewn cwrtill annedd preifat neu'n gysylltiedig ag anheddiad) o leiaf un cae i ffwrdd o ymyl yr arfordir i gynnal ei gymeriad agored a diamddiffyn.
- Lleoli unrhyw ddatblygiad ynni gwynt oddi wrth y nenlinellau gwledig amlycaf ac ystyried effaith llwybrau mynediad ac adeiladau atodol cysylltiedig.
- Ystyried golygfeydd ar hyd yr arfordir, o olygfannau lleol, ac o lwybrau twristaidd a golygfaol poblogaidd (gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy eraill) wrth leoli unrhyw ddatblygiad ynni gwynt yn y dirwedd.
- Sicrhau nad yw datblygiadau ffermydd gwynt yn pontio dros wahanol fathau o dirweddau, megis ar draws trawsnewidiadau rhwng tir uchel a thir isel.
- Defnyddio coetiroedd, topograffeg donnog a pherthi wedi gordyfu i integreiddio unrhyw isadeiledd sy'n gysylltiedig â datblygiad ynni gwynt yn y dirwedd.
- Osgoi niweidio cynefinoedd rhannol naturiol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Gwarchod safleoedd hanesyddol ac archaeolegol dynodedig.
- Gwarchod cymeriad a lleoliadau adeiladau yn Ardaloedd Cadwraeth.
- Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad ynni gwynt yn tynnu oddi ar dirnodau amlwg.
- Osgoi lleoli tyrbinau yn yr ardaloedd tawelaf.
- Ystyried sut fydd y tyrbinau yn cael eu cludo i'r safle - mae rhai ffyrdd gwledig yn gul iawn gyda pherthi bob ochr iddynt. Dylid defnyddio cerbydau bach sy'n addas ar gyfer y ffyrdd culion rhain i sicrhau nad yw'r nodweddion hyn yn cael eu niweidio.
- Gwarchod Nodweddion Arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel y nodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2.
- Dylai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad ynni gwynt sydd wedi'i leoli yn y dirwedd warchoddedig yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd na nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol⁵.

⁵ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

Yn ogystal, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi paratoi canllawiau atodol manwl ynglŷn ag effeithiau cronnus tyrbinau gwynt.

- 4.10 Pan fo datblygiadau ynni gwynt arfaethedig ar y tir ynni gwynt arfaethedig ar y tir yn rhyngweladwy â rhan o fôr neu arfordir ynghyd â datblygiad ynni gwynt arall ar y tir a/neu ddatblygiad ynni ar y môr, dylid pennu'r effeithiau cronol ar ardal (oedd) cymeriad morwedd lleol neu ranbarthol, yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad, gan ystyried yr asesiad morwedd⁶ i ddatblygiad fferm wynt yn y môr. Ystyrir hyn mewn cyfres gysylltiedig o adroddiadau sydd ar gael ar wefan CNC⁷. Ceir manylion am asesiadau cymeriad morwedd lleol yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar Gymeriad Morweddau.

⁶ National Seascape Assessment for Wales, NRW Evidence Report No 80, November 2015


⁷ Seascape and visual sensitivity to offshore wind farms in Wales: Strategic assessment and guidance. Stages 1-3, NRW Evidence Report No 315, Natural Resources Wales, 2019.

Cysylltwyr Grid Ar y Tir ar gyfer Gosodiadau Gwynt yn y Môr a Gosodiadau Ynni'r Llanw

Beth yw cysylltwr grid ar y tir?

- 4.11 Mae cysylltwyr grid ar y tir yn darparu newidydd dosbarthu y gellir ei gysylltu â'r generadur ar y môr (y tyrbinau gwynt neu gosodiadau ynni'r llanw) drwy gebl, sydd fel rheol wedi'i osod dan ddaear, ond gallai fod wedi'i gosod uwchben hefyd.
- 4.12 Mae'r isadeiledd ar gyfer y cysylltiad grid ar y tir yn cynnwys cysylltwr grid (strwythur adeiledig), a gwaith ceblau i gysylltu â'r generadur ar y môr (y tyrbinau gwynt neu gosodiadau ynni'r llanw). Bydd y ceblau naill ai'n dilyn llwybr y ffordd agosaf neu lwybr uniongyrchol i'r is-orsaf agosaf. Mewn ambell achos, efallai y bydd yn ofynnol cael is-orsafoedd newydd. Fel rheol, byddai un cebl yn 22-100mm mewn diamedr, yn dibynnu ar gyfradd y cerrynt parhaus.
- 4.13 Yn gyffredinol, caiff y ceblau eu claddu o dan y deunydd ar y tir ar ddyfnder o oddeutu 1.5m. Os yw'r arfordir yn cynnwys clogwyni, caiff twll ei dyllu o ben y clogwyn i lawr i droed y clogwyn. Bydd y ceblau yn cael eu cysylltu mewn siambr arolygu (ciwb concriod oddeutu 2m, wedi'i gladdu dan ddaear) wrth droed y clogwyn; mae'r ceblau yn pasio drwy'r graig ac i ail siambr, sydd wedi'i leoli ar ben y clogwyn, wedi'i gladdu ond gyda gorddrws wedi'i amlygu. Mae hyd y ceblau wedi'u claddu mewn ffosydd oddeutu 1.5m o ddyfnder - y lled yn dibynnu ar faint a nifer y ceblau (e.e. bydd fferm wynt fawr ar y môr yn gofyn lled o dros 2m yn y ffosydd).

Simplified illustration of directional drilling to cross a surface feature



Typical cross-bonding arrangements involve either a buried pit with a manhole or an above ground pillar



Darlun o dyllu twll ar gyfer ceblu dros bellter hir (uchod) a'r siambrau cysylltu ceblau uwch ben y ddaear ac o dan ddaear (isod)⁸

Dewis safle addas yn y Parc Cenedlaethol

4.14 Caiff y lleoliad lle mae'r cebl ar y môr yn dod ar y tir ei benderfynu gan:

- nodweddion yr arwyneb ar wely'r môr ger y blaendraeth
- daeareg y clogwyni (rhwyddineb tyllu, sefydlogrwydd, holltau, etc.)
- effaith ar isadeiledd cyfredol y grid
- agosrwydd y newidiwr dosbarthu agosaf
- cost ac effaith hyd y ceblau at y newidiwr agosaf

Canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli cysylltwyr grid ar y tir yn y Parc Cenedlaethol

4.15 Mae gan gysylltwyr grid ar y tir y potensial i effeithio ar y dirwedd leol yn y ffyrdd canlynol:

- Mae cysylltwyr grid yn cynnwys strwythurau bach adeiledig a fyddai'n cyflwyno effeithiau mwy sylweddol ar y dirwedd mewn ardaloedd gwledig, tawel.
- Mae'r broses o osod ceblau dan ddaear yn dueddol o achosi effeithiau lleol i'r dirwedd.
- Mae ceblau uwch ben yn cyflwyno strwythurau diwydiannol newydd i'r dirwedd gydag effeithiau sylweddol posibl ar olygfeydd.

⁸ 'Sheringham Shoal Offshore Wind Farm Onshore Grid Connection: Environmental Statement, Non-technical summary' Scira Offshore Energy Limited, paratowyd gan Royal Haskoning.

Atodiad 1: Sensitifrwydd y dirwedd a chanllawiau ar gyfer datblygiad FfF solar ar raddfa caeau yn ôl ACT

Mae'r Atodiad hwn yn darparu crynodeb o sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau FfF solar ar raddfa caeau ar gyfer pob ardal cymeriad tirwedd (ACT) ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae ACTau 2, 17 a 23 wedi'u heithrio am fod yr asesiad yn canolbwyntio ar ACTau sy'n fwy gwledig yn bennaf.

Mae sensitifrwydd pob Ardal Cymeriad Tirwedd ar wahanol raddfeydd o osodiadau FfF solar yn cael ei nodi yn **Ffigur 3.1 – 4**.

I ddefnyddio'r wybodaeth hon, nodwch y lleoliad o ddiddordeb – gweler y **Map** ynghlwm sy'n dangos yr Ardal Nodwedd Tirwedd a'r ACT perthnasol yn defnyddio **Ffigur 3.1 – 3.4** ac adolygwch y disgrifiad a'r canllawiau sensitifrwydd sydd yn **Atodiad 1** lle darperir gwybodaeth ar wahân ar gyfer pob ACT.

Lefelau sensitifrwydd y dirwedd a diffiniadau

Lefel Sensitifrwydd	Diffiniad
Uchel	Byddai'r datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith niweidiol ar nodweddion allweddol y dirwedd. Byddai datblygiad o'r fath yn arwain at newid sylweddol mewn cymeriad. Tebygol o fod yn anaddas ar gyfer y datblygiad ynni adnewyddadwy.
Cymedrol-uchel	Byddai'r datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith niweidiol ar lawer o nodweddion allweddol y dirwedd. Byddai datblygiad o'r fath yn arwain at newid amlwg mewn cymeriad. Efallai y bydd rhai cyfleoedd cyfyngedig i roi lle i'r datblygiad ynni adnewyddadwy heb newid cymeriad y dirwedd. Byddai angen gofal mawr wrth leoli'r seilwaith.
Cymedrol	Mae rhai o nodweddion allweddol y dirwedd yn fregus ac efallai y byddai'r datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith niweidiol arnynt. Er y gallai'r dirwedd dderbyn peth o'r datblygiad, mae'n debygol o achosi peth newid mewn cymeriad. Byddai angen gofal wrth leoli'r seilwaith.
Cymedrol-lsel	Byddai'r datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith niweidiol ar ambell un o nodweddion y dirwedd. Mae'r dirwedd yn debygol o allu derbyn peth o'r datblygiad gyda newid bach yn unig i gymeriad.

Isef	Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn gadarn ac ni fyddai'r datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael effaith niweidiol arnynt. Mae'r dirwedd yn debygol o fod yn gallu derbyn y datblygiad heb unrhyw newid arwyddocaol i'w chymeriad.
------	--

Mae graddfeydd y datblygiadau FfF a ystyriwyd fel a ganlyn:

Maint	Arwynebedd
Mawr	> 5 ha.
Canolig	3 ha. – 4.9
Bach	1 ha. – 2.9 ha.
Bach iawn	<1 ha.

ACT1: Arfordir Setledig Saundersfoot

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai'r teimlad cryf o dir caeedig ar draws llawer o'r ardal a dylanwad dyn ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae'r morlin agored, naturiolaid, adnoddau archaeolegol cyfoethog yr ardal, y golygfeydd ar draws y bae a phresenoldeb rhai caeau bach afreolaidd, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolog					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> • Yr ardaloedd arfordirol annatblygedig. • Rhai ardaloedd o gaeau bychain afreolaidd. • Y dyffrynnoedd coediog cyfarwydd caeedig. • Gwerth hanesyddol uchel nodweddion ac olion diwydiannol. • Gwerth hanesyddol y parcdir / ystâd o gwmpas Castell Hean a Neuadd Coppet. • Cymeriad ac edrychiad Ardal Gadwraeth Saundersfoot. • Gwerth ecolegol cynefinoedd rhannol naturiol 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr ymyl arfordirol naturiolaid a'r dyffrynnoedd coediog cyfarwydd yn sensitif i bob graddfa o ddatblygiad FfF solar. • Bydd ardaloedd o gaeau afreolaidd bach yn sensitif i'r cyfan, heblaw am y raddfa leiaf o ddatblygiad. • Gosod y datblygiad FfF o leiaf un cae yn ôl oddi wrth yr ymyl arfordirol annatblygedig fel nad yw'n tynnu oddi ar gymeriad naturiol diamddiffyn yr arfordir a'r golygfeydd agored ar hyd yr arfordir. • Gosod y datblygiad FfF o fewn plygiadau yn y dirwedd ymdreiglol, ar dir gwastad a llethrau is yn hytrach nag ar dirffurfiau amlwg, llethrau gweladwy iawn neu bentir arfordirol. • Osgoi lleoli datblygiad FfF ar draws amryfal gaeau lle bydd hyn yn cuddio'r patrwm nodweddiadol gwaelodol o gaeau graddfa fach. • Gosod datblygiad FfF mewn ardaloedd sydd ag arwyddion o weithgaredd dynol, osgoi ardaloedd sydd heb eu haflonyddu neu sydd â graddfa uchel o naturioedd canfyddadwy. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Defnyddio'r tir caeedig sy'n deillio o'r coetir a'r perthi uchel i sgrinio datblygiadau FfF.• Diogelu'r cymeriad mosaig amaethyddol a choedwigol, yn arbennig tirwedd yr ystâd a'r parcdir o gwmpas Castell Hean Castle a Neuadd Coppet.• Diogelu archaeoleg bwysig yr ardal, yn enwedig honno sy'n gysylltiedig â'i threftadaeth ddiwydiannol. Diogelu cymeriad ac edrychiad Ardal Gadwraeth Saundersfoot.• Gwarchod ardaloedd o gynefin lled-naturiol.• Osgoi datblygiad FfF solar lle byddai golygfeydd sensitif neu bwysig yn edrych yn uniongyrchol drosto, yn arbennig o Lwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy.
--	--

ACT3: Ynys Bÿr

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai'r tir gwastad neu'r tir ar oledf ysgafn sydd ar draws tipyn o'r ardal ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae natur ddiamddiffyn, agored llawer o'r ynys, y gorchudd tir, bugeiliol yn bennaf, a'r anheddiad minimal, oll yn cynyddu'r lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolog					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad ar raddfa fechan tirwedd yr ynys. • Cymeriad o anheddiad isel. • Olion archaeolegol a hanesyddol o bwys cenedlaethol, gan gynnwys priordy canoloesol yr ynys a photensial y parth rhynglanw. • Statws Ardal Gadwraeth rhan ddwyreiniol yr ynys. • Cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol pwysig, gan gynnwys cytrefi adar môr ar y clogwyni. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Asesir yr ardal hon yn un o sensitifrwydd uchel i unrhyw ddatblygiad FfF solar ar unrhyw faint a graddfa ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau. 				

ACT 4: Maenorbŷr/Freshwater East

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai natur iseldir tonnog yr ardaloedd mewndirol a'r cyfuniad o orchudd tir ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae presenoldeb caeau canoloesol graddfa fach i gymedrol, defnydd tir bugeiliol yn bennaf, natur agored yn agosach at yr arfordir, cynefinoedd o bwys rhyngwladol a chyfoeth o safleoedd hanesyddol, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Ise	Cymedrol-Ise	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolig					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddau	<ul style="list-style-type: none"> • Patrwm caeau canoloesol graddfa fach-canolig gan gynnwys ardaloedd bach o lain-gaeau wedi'u cadw. • Presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau adar o bwys rhyngwladol (e.e. hebog tramor, brân goesgoch) • Cyfoeth o safleoedd hanesyddol ac archaeolegol gan gynnwys caeau llain sydd bob ochr i'r Gefnffordd rhwng Llandyfái ac i'r de o St Ffloreus a thirwedd faenorol cadw Maenorbŷr (tirwedd o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol). • Cymeriad tir fferm caeedig traddodiadol gyda synnwyr hanesyddol cryf o le. • Natur agored yr ymyl arfordirol a golygfeydd ar hyd yr arfordir a thu hwnt i Ynys Bŷr. • Dwy Ardal Gadwraeth ym Maenorbŷr a Porthglew. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae presenoldeb caeau Canoloesol graddfa fach-canolig yn golygu y bydd y dirwedd yn arbennig o sensitif i bopeth ond y graddfeydd lleiaf o ddatblygiad FfF. • Bydd yr ymyl arfordirol agored, amrywiol, naturiol a thra gweladwy yn sensitif i bob graddfa o ddatblygiad FfF solar. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi pob graddfa o ddatblygiad FfF yn y caeau bach iawn sydd o darddiad canoloesol ac o arwyddocâd hanesyddol arbennig. • Yn fwy cyffredinol peidio â chaniatáu i ddatblygiad FfF guddio patrwm cae gyda datblygiad ar draws amryfal gaeau. Osgoi pob ardal o gaeau llain hanesyddol • Defnyddio plygiadau yn y tirffurfiant i sgrinio datblygiad FfF oddi wrth fannau arsyllu cyhoeddus yn cynnwys hawliau tramwy, ffafrio safleoedd ar dirffurfiau gwastad a llethrau is, wrth osgoi tirffurfiau amlwg, llethrau gweladwy iawn, neu bentir arfordirol. • Defnyddio perthi wedi gordyfu a choetir i helpu sgrinio datblygiadau FfF, osgoi tirweddau agored sydd heb eu cau. • Dylai datblygiadau FfF osgoi mosaig o ardaloedd rhedyn a phrysgwydd sydd â chymeriad anghysbell cryf. • Ystyried golygfeydd pwysig wrth leoli datblygiadau FfF, diogelu golygfeydd ar hyd yr arfordir o Lwybr Arfordir Penfro ac osgoi lleoliadau lle byddai datblygiadau FfF mewn mannau agos yn edrych i lawr ar fannau syllu pwysig neu sensitif. • Osgoi effeithio ar ardaloedd o gynefinoedd rhannol naturiol a safleoedd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer bywyd gwylt. • Diogelu cymeriad a chefnidir Ardaloedd Cadwraeth Maenorbŷr a Phortglew ac yn fwy cyffredinol, cadw cefndir y pentrefi wedi'u dominyddu gan ffurfiau adeiladau traddodiadol. • Diogelu safleoedd hanesyddol ac archaeolegol gan gynnwys tirwedd faenrol gadw Maenorbŷr (tirwedd o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol) a'r cefndir i adeiladau canoloesol allweddol megis Palas yr Esgob Llandyfái a safle'r tŷ dyfrffos yn Hodgeston.
--	--

ACT 5: Ystagbwl

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai natur gaeedig y dirwedd ddynodi llai o sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae graddfa gyfarwydd y dyffrynnoedd afon, y gorchudd tir coediog, rhannol naturiol, y dirwedd o ddyluniad hanesyddol a diwylliannol o bwys cenedlaethol a phwysigrwydd ecolegol eithriadol yr amrywiol gynefinoedd, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolog					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> • Graddfa gyfarwydd, gaeedig y dirwedd dyffryn hon mewn clogyn o goetir ystâd wedi'i hen sefydlu. • Y synnwyr cryf o le a hwnnw'n hanesyddol iawn. • Cynefinoedd amrywiol o arwyddocâd rhyngwladol. • Gwerth archaeolegol a hanesyddol o bwys cenedlaethol sydd i'r ardaloedd hyn. • System ddyffryn arfordirol llifddyfrol gyda thwyni tywod a thraethau golygfaol Bae Barafundel ac Aber Llydan. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Asesir yr ardal hon yn un o sensitifrwydd uchel i unrhyw ddatblygiad FfF solar ar unrhyw faint a graddfa ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau. 				

ACT 6: Meysydd Tanio Castellmartin / Merrion

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai natur donnog yr ACT hon a'r ardaloedd prin o batrwm nodedig y caeau ddynodi llai o sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae'r ehangder o laswelltir arfordirol, natur agored llawer o'r ardal, presenoldeb nodweddion tirwedd hanesyddol a chynefinoedd pwysig, oll yn cynyddu'r lefelau o sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isef	Cymedrol-Isef	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolog					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> Tirwedd wyllt gyda darnau mawr o laswelltir arfordirol agored yn y de gyda chlytiaau o rostir a theimlad cymharol o unig. Nodweddion agored, noeth gyda golygfeydd hirbell ar hyd yr arfordir. Cymeriad annatblygedig yn bennaf - tirwedd wyllt, heddychlon, heb fawr o aflonyddu gan ddyn. Presenoldeb safleoedd o bwys cenedlaethol o ran hanes ac archaeoleg. Cynefinoedd o bwys rhyngwladol ac ardaloedd o werth ecolegol eithriadol gan gynnwys glaswelltir arfordirol, rhostir a chynefinoedd clogwyn. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> Dylai pob graddfa o ddatblygiad FfF osgoi'r ardaloedd helaeth o laswelltir rhannol naturiol agored a'r clytiaau o rostir yn y de gyda'u patrwm organig o gymeriad noeth gyda'r eithriad posibl o raddfa fach iawn o ddatblygiad FfF solar sy'n gysylltiedig â'r cytiaau ymyl y ffordd presennol. Yn yr un modd, bydd yr ymyl arfordirol amlwg iawn a naturiolaid yn sensitif i bob graddfa o ddatblygiad FfF, lle mae'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddatblygiad o'r fath gael ei osod yn ddigon pell yn ôl o ymyl yr arfordir fel nad ydynt yn amharu ar ei unigrwydd cymharol, y cymeriad naturiol a'r pwysigrwydd daearegol. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Yng ngogledd yr ACT, peidio â chuddio patrwm sylfaenol y caeau wrth leoli datblygiad FfF ar draws amryfal gaeau mewn ardaloedd o gaeau afreolaidd graddfa fach lle mae patrymau cae yn cyfrannu'n fawr at y cymeriad. • Defnyddio plygiadau yn y tirffurfiant, perthi a choetir i sgrinio datblygiad FfF oddi wrth fannau arsyllu cyhoeddus yn cynnwys hawliau tramwy, osgoi tirffurfiau amlwg, llethrau gweladwy iawn, neu bentir arfordirol. • Sicrhau nad yw'r datblygiad yn torri ar draws y golygfeydd hirbell ar hyd yr arfordir o olygfannau lleol, llwybrau golygfaol a thwristaidd poblogaidd gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy eraill neu lle byddai'n edrych i lawr ar fannau syllu pwysig neu sensitif. • Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad FfF yn niweidio unrhyw ardaloedd o bwys rhyngwladol o safbwynt ecoleg arfordirol, gan gynnwys cynefinoedd rhannol naturiol a safleoedd bridio a bwydo adar. • Diogelu henebion cyn-hanesyddol, bryngaerau o'r Oes Haearn, adeiladau a safleoedd canoloesol ac ôl-ganoloesol, oll ag arwyddocâd cenedlaethol.
--	--

ACT 7: Penrhyn Angle

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai natur iseldir tonnog y penrhyn ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae'r patrwm caeau graddfa fach nodedig, y gwerthoedd hanesyddol cryf, y cynefinoedd rhannol naturiol pwysig, goruchafiaeth y tir pori a natur agored, noeth rhannau o'r ardal oll yn cynyddu'r lefelau o sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolig					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> Graddfa fach y dirwedd gydag ymdeimlad cryf o lonyddwch. System ganoloesol greiddiol y caeau sy'n arbennig o amlwg yn ardal pentref Angle ac oddi amgylch - goroesiad pwysig o bentref Canoloesol cynlluniedig. Gwerth hanesyddol a diwylliannol amlwg gan gynnwys Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Cymru Dyfrffordd Aberdaugleddau sy'n cwmpasu adran ogleddol yr ACT hon gan gynnwys Bae Angle. Y berthynas gref rhwng tir a môr gyda'r arfordir a Dyfrffordd Aberdaugleddau i'w gweld yn amlwg o sawl man. Rhywogaethau a chynefinoedd aberol gwerthfawr, gan gynnwys adar hela a rhydwy'r sy'n gaeafu. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> Mae cymeriad cromennog graddol ac agored rhan ddeheuol yr ardal hon yn golygu y bydd angen lleoli datblygiadau FfF solar yn ofalus i sicrhau nad ydynt i'w gweld o ardal eang. Mae'r berthynas gref rhwng yr arfordir a Dyfrffordd Aberdaugleddau yn golygu y bydd yr ymyl arfordirol yn sensitif i ddatblygiad FfF solar ar bob graddfa, lle bydd gofyn i'r fath ddatblygiadau gael eu lleoli yn ddigon pell yn ôl o ymyl yr arfordir i gadw golygfeydd di-ymyrraeth at Benrhyn y Santes Ann ac ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi datblygiad FfF o bob graddfa yn y caeau bach iawn o darddiad Canoloesol ac o arwyddocâd hanesyddol, a chadw datblygiad y tu hwnt i Ardal Gadwraeth Angle. • Yn fwy cyffredinol peidio â gadael i ddatblygiadau FfF guddio patrwm y caeau, gyda datblygiad ar draws amryfal gaeau. Osgoi pob ardal o lain-gaeau hanesyddol • Defnyddio plygiadau yn y tirffurf, perthi sy'n bodoli eisoes a choetir i sgrinio datblygiad FfF oddi wrth lecynnau ffafriol gan gynnwys hawliau tramwy, ffafrio safleoedd ar dirffurfiau gwastad a llethrau is, wrth osgoi tirffurfiau amlwg a llethrau tra gweladwy. • Ystyried a oes unrhyw gyfle i gyfuno plannu sgriniau newydd (â datblygiad FfF) i helpu hefyd i sgrinio golygfeydd strwythurau diwydiannol a thir wedi'i anrheithio. • Osgoi lleoli datblygiad FfF solar lle byddai manau arsylwi pwysig neu sensitif yn edrych i lawr arno'n uniongyrchol agos neu lle byddai i'w weld yn amlwg iawn o Lwybr Arfordir Penfro neu hawliau tramwy eraill. • Osgoi effeithio ar ardaloedd o gynefin rhannol naturiol gan gynnwys cynefinoedd o arwyddocâd rhyngwladol ar hyd ymyl yr arfordir. • Mae diogelu'r nodweddion hanesyddol a safleoedd sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Cymru Dyfrffordd Aberdaugleddau yn cwmpasu rhan ogleddol yr ACT hon.
--	---

ACT 8: Freshwater West/ Brownslade Burrows

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai natur donnog yr ACT hon a diffyg amlygrwydd patrwm y caeau ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae presenoldeb system dwyni brin, cynefinoedd bywyd gwyllt o bwys cenedlaethol, natur annatblygedig yr ardal a'r cyswllt cryf gyda'r arfordir, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar..				
	Isef	Cymedrol-Isef	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolog					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> • System dwyni brin a gwlypdir. • Cymeriad anghysbell ac annatblygedig, heb anheddiad ac adeiladau gan fwyaf. • Amrywiol gynefinoedd rhannol naturiol yn cynnal ystod o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid pwysig. • Safleoedd hanesyddol ac archaeolegol, gan gynnwys bryngaerau Oes yr Haearn. Y cymeriad di-gaeëdig a diffyg tir wedi'i drin. <p>Perthynas gref rhwng y tir a'r môr.</p>				
Canllawiau	Asesir yr ardal hon yn un o sensitifrwydd uchel i unrhyw ddatblygiad FfF solar ar unrhyw faint a graddfa ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau.				

ACT 9: Marloes

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gallai natur donnog y dirwedd hon a phresenoldeb tir âr ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae'r dirwedd sydd o natur agored yn bennaf, presenoldeb nodweddion hanesyddol pwysig, cynefinoedd bywyd gwyllt o bwys rhyngwladol ac ymyl yr arfordir naturiolaid oll yn cynyddu lefelau o sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Ise	Cymedrol-Ise	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolig					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddau	<ul style="list-style-type: none"> • Y cymeriad gwledig cryf. • Clytwaith o gaeau rheolaidd ar raddfa fach i ganolig. • Cynefinoedd rhostir a thraethlin o bwys rhyngwladol a chynefinoedd gwlypdir yn Llyn Marloes. • Cymeriad naturiolaid ymyl yr arfordir. • Nodweddion hanesyddol pwysig a thirweddau diwylliannol, gan gynnwys y safleoedd cyn-hanesyddol a'r henebion, nodweddion canoloesol a pharcdir Monk Haven a'r nodweddion a gysylltir yn arbennig â Thirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Cymru Dyfrffordd Aberdaugleddau. • Golygfeydd arfordirol, gan gynnwys ynysoedd Sgomer a Sgogwm, yn ogystal â golygfeydd yn ôl at y rhan hon o'r arfordir o Sgomer a Sgogwm. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Golyga presenoldeb caeau ar raddfa fach i ganolig y bydd y dirwedd yn debygol o fod yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau FfF solar ar raddfeydd 'cymedrol' a 'mawr'. • Mae pwysigrwydd yr ymyl arfordirol annatblygedig gyda chlogwyni i'r gorllewin a'r gogledd a thraethlin aberol Aberdaugleddau yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob datblygiad FfF solar gael ei leoli o leiaf un cae yn ôl o ymyl yr arfordir er mwyn cynnal y cyswllt diwylliannol cryf rhwng y tir a'r môr. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cymeriad rhostir / prysg y dirwedd yn arbennig ar hyd ymyl deheuol yr arfordir. • Peidio â lleoli datblygiad FfF mewn ardaloedd heb eu hafionyddu ac sydd â graddfa fawr o naturioldeb canfyddadwy (yn enwedig ar Benrhyn y Santes Ann ac o'i gwmpas). • Cynnal y patrwm tirwedd clytwaith. • Lleoli datblygiad FfF ar dirffurfiau gwastad neu ar lethrau is/o fewn plygiadau yn y dirwedd o iseldir tonnog gan ffafrio tirffurfiau gwastad a llethrau is, wrth osgoi tirffurfiau amlwg, llethrau gweladwy iawn neu bentiroedd arfordirol. • Lleoli datblygiadau FfF mewn ardaloedd o dir caeedig presennol sy'n cael eu darparu gan goetir, gwrychoedd neu gloddiau uchel yn hytrach nag mewn tirwedd agored, di-gaeedig. • Osgoi gosod datblygiad FfF ar draws amryfal gaeau cyfagos lle bydd hyn yn cuddio patrwm y caeau. • Cadw golygfeydd di-dor ar hyd yr arfordir ac o Lwybr Arfordir Penfro at yr Ynysoedd, ac oddi wrthynt, at Fae Sain Ffraid a thros Aberdaugleddau hyd at Benrhyn Angle. • Diogelu safleoedd hanesyddol ac archaeolegol a'u lleoliad, gan gynnwys safleoedd cyn-hanesyddol a henebion, a nodweddion Canoloesol a'r nodweddion a gysylltir â Thirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Cymru Dyfrffordd Aberdaugleddau. • Osgoi effeithio ar rostir o bwys rhyngwladol, cynefinoedd y draethlin, Llyn Marloes a bywyd gwyllt cysylltiedig.
--	---

ACT 10: Sgomer a Sgogwm

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gall natur wastad yr ynysoedd ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae ei orchudd tir o laswelltir arfordirol rhannol naturiol yn bennaf, diffyg tir caeedig, rhinweddau di-ymyrraeth, treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol o bwys, a'r berthynas gref iawn gyda'r môr, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF solar ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolig					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddau	<ul style="list-style-type: none"> • Tirwedd naturiolaid gyda glaswelltir arforol rhannol naturiol yn orchudd tir dominyddol. • Cymeriad agored a noeth gyda golygfeydd môr panoramig. • Absenoldeb aflonyddwch dynol. • Cytrefi o adar môr a chynefinoedd naturiol o bwys rhyngwladol. • Olion archaeoleg o arwyddocâd rhyngwladol, gan gynnwys nodweddion anheddiad ac amaeth cyn-hanesyddol. • Perthynas barhaus rhwng yr ynysoedd a'r môr. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Asesir yr ardal hon fel un sy'n dra sensitif i unrhyw raddfa o ddatblygiad FfF solar; felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau. 				

ACT 11: Herbrandston

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gall y dirwedd o iseldir tonnog, presenoldeb y gwrychoedd wedi'u gordyfu a phresenoldeb diwydiant sy'n amharu ar yr olygfa, ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae'r defnydd pennaf fugeiliol o'r tir a golygfeydd pwysig ar draws ardaloedd aberol, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolig					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> Ei chymeriad bugeiliol yn bennaf. Yr ymylon arfordirol ac aberol naturiolaid a'r cynefinoedd aberol gwerthfawr. Y golygfeydd o Lansian-yn-rhos ar draws Pil Sandy Haven a golygfeydd ar draws Dyfrffordd Aberdaugleddau. Nodweddion hanesyddol pwysig a thirwedd ddiwylliannol, gan gynnwys strwythurau cysylltiedig â Thirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Cymru Dyfrffordd Aberdaugleddau. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> Golyga'r patrwm amrywiol o gaeau graddfa ganolig y bydd y dirwedd yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau FfF solar 'mawr'. Defnyddio plygiadau yn y tiffurf, perthi sy'n bodoli eisoes a choetir i sgrinio datblygiad FfF oddi wrth lecynnau ffafriol gan gynnwys hawliau tramwy, ffafrio safleoedd ar dirffurfiau gwastad a llethrau is, wrth osgoi tiffurfiau amlwg a llethrau tra gweladwy. Ystyried a oes unrhyw gyfle i gyfuno plannu sgriniau newydd (i ddatblygiad FfF) i helpu hefyd i hidlo golygfeydd i'r burfa olew gerllaw Lleoli datblygiadau o leiaf un cae yn ôl o ymyl yr aber er mwyn cadw ei gymeriad naturiolaid. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Diogelu safleoedd hanesyddol ag arwyddocâd cenedlaethol a'u cefndir, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â Thirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Cymru Dyfrffordd Aberdaugleddau.• Sicrhau nad yw datblygiadau FfF yn amharu ar olygfeydd ar hyd yr aber o olygfannau lleol, llwybrau golygfaol a thwristaidd poblogaidd (gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy eraill) i Bil Sandy Haven, Great Castle a Phenryn y Santes Ann (ACT 9) ac ar draws Dyfrffordd Aberdaugleddau i gyfeiriad Penrhyn Angle (ACT 7).• Osgoi effeithio ar ardaloedd o gynefin rhannol naturiol yn arbennig cynefinoedd aberol gwerthfawr.
--	---

ACT 12: Bae Sain Ffraid

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er y gall natur iseldir tonnog y dirwedd ddynodi gostyngiad mewn sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar, mae defnydd pennaf fugeiliol y tir, y cymeriad agored a noeth, golygfeydd pwysig, presenoldeb nodweddion hanesyddol, cynefinoedd o bwys rhyngwladol a'r berthynas weledol gref gyda'r môr, oll yn cynyddu lefelau sensitifrwydd i ddatblygiad FfF solar.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
FfF ar raddfa fawr					
FfF solar ar raddfa ganolig					
FfF solar ar raddfa fechan					
FfF solar ar raddfa fechan iawn					
Prif sensitifeddu	<ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad agored a diamddiffyn ymyl yr arfordir. • Cynefinoedd rhannol naturiol, yn arbennig yn yr ardaloedd arfordirol a'r gorlifdir – rhostir, glaswelltir (gan gynnwys glaswelltir corsiog a gwelyau cyrs ar orlifdir), coed collddail, prysgwydd • Patrwm amrywiol o gaeau ar raddfa fechan-canolig o wahanol siapiau. • Perthi a gwrychoedd isel yn gyffredinol a gwelededd da ar draws y dirwedd • Golygfeydd helaeth ar hyd yr arfordir ac ar draws Bae Sain Ffraid. • Nodweddion archaeolegol, yn arbennig safleoedd cyn-hanesyddol, henebion a hen odynnau calch. • Castell y Garn, adeilad rhestredig Gradd 1 amlwg o'r drydedd ganrif ar ddeg. • Perthynas weledol agos rhwng y tir a'r môr. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae presenoldeb patrwm amrywiol o gaeau afreolaidd graddfa fach i ganolig a chynefin o bwys rhyngwladol yn golygu bod y dirwedd yn debygol o fod yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau FfF solar graddfa 'cymedrol' i 'fawr'. Bydd ardaloedd o gaeau bychain yn sensitif i'r cyfan ond y raddfa leiaf un o ddatblygiad FfF. 				

- Mae'r berthynas gref rhwng y morlin a'r dirwedd fewnol yn golygu bod yr ymyl arfordirol yn sensitif i bob graddfa o ddatblygiad FfF, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiadau gael eu lleoli o leiaf un cae yn ôl o'r arfordir er mwyn cadw golygfeydd di-dor ar hyd yr arfordir a Bae Sain Ffraid.
- Osgoi pob graddfa o ddatblygiad FfF mewn ardaloedd o gaeau bach iawn.
- Yn fwy cyffredinol peidio â chaniatáu i ddatblygiad FfF guddio patrwm cae gyda datblygiad ar draws amryfal gaeau.
- Defnyddio plygiadau yn y tiffurfiant i sgrinio datblygiad FfF oddi wrth olygfannau cyhoeddus, yn cynnwys hawliau tramwy, ffafrio safleoedd ar dirffurfiau gwastad a llethrau is, wrth osgoi tiffurfiau amlwg, llethrau gweladwy iawn, neu bentir arfordirol.
- Osgoi datblygiad yn rhannau mwy anghysbell a heddychlon o'r ACT hon.
- Lleoli datblygiad mewn ardaloedd gyda synnwyr o dir caeedig sydd â sgriniau o berthi yn barod
- Gwarchod safleoedd o bwys hanesyddol ac archaeolegol, a'u lleoliad, gan gynnwys Castell Y Garn.
- Osgoi effeithio ar ardaloedd o gynefin gan gynnwys rhostir arfordirol, glaswelltir gorlifdir, gwelyau cyrs.
- Sicrhau nad yw datblygiadau FfF yn amharu ar olygfeydd at yr arfordir, ac ar hyd yr arfordir, a golygfeydd o olygfannau lleol (gan gynnwys golygfannau uwch Mynyddoedd Cuffern a Ryndaston), llwybrau golygfaol a thwristaidd poblogaidd fel Llwybr Arfordir Penfro a hawliau tramwy. Osgoi lleoli datblygiad FfF lle byddai golygfannau pwysig neu sensitif yn edrych i lawr arno'n uniongyrchol agos.

ACT 13: Brandy Brook

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Lleoli unrhyw ddatblygiadau ynni gwynt i ffwrdd oddi wrth y nenlinellau gwledig amlycaf ac ystyried effaith traciau ac adeiladau ategol. Efallai y bydd yna rywffaint o gyfle ar gyfer tyrbinau gwynt sengl ar raddfa fach neu glystyrau bychain ohonynt o fewn ardaloedd trefol sydd eisoes yn bodoli, neu ar y cyrion. • Defnyddio coetiroedd sydd eisoes yn bodoli a'r dopograffeg donnog i integreiddio unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad tyrbinau yn y dirwedd. • Sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar gymeriad ac ymddangosiad Ardal Gadwraeth Saundersfoot. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau bach, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal.• Ystyried y golygfeydd agored ar hyd yr arfordir wrth leoli unrhyw dyrbinau gwynt.• Sicrhau bod meindwr yr eglwys, a welir uwchlaw Pwynt Monkstone, yn dal i fod yn dirnod amlwg yn yr olygfa tua'r de o Lanrhath tuag at Ddinbych-y-pysgod ac nad yw'r tyrbinau'n cystadlu gyda'r tirnod hwn nac yn gwrthdaro ag ef.• Efallai y bydd datblygiad newydd o fewn Saundersfoot yn darparu cyfleoedd i integreiddio strwythurau ynni adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol⁹.
--	---

⁹ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'chymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT3: Ynys Bÿr

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Byddai agwedd agored y dirwedd hon yn cynnig potensial sylweddol i fanteisio ar ynni gwynt. Fodd bynnag, mae ei gwelededd uchel o'r ynys o'r prif dir, ei hymdeimlad cryf o lonyddwch, ei nodweddion archaeolegol a hanesyddol o bwys cenedlaethol, a'i gwerth uchel o ran bioamrywiaeth (gan gynnwys cytrefi o adar môr a chynefinoedd ar gopa'r clogwyni) yn golygu bod ganddi sensitifrwydd uchel yn gyffredinol i ddatblygiadau tyrbín gwynt o unrhyw faint neu raddfa.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddau	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd sy'n ei gwneud yn anaddas ar gyfer datblygiadau technoleg gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei hamlygrwydd gweledol o'r prif dir (gan gynnwys goleudy'r ynys) a'i thir gwastad. • Cymeriad graddfa fach tirwedd yr ynys. • Ei chymeriad tawel gydag ychydig o anheddiad. • Olion hanesyddol ac archaeolegol o bwys cenedlaethol, gan gynnwys priordy canoloesol yr ynys a photensial yr ardal rhynglanw. • Statws Ardal Gadwraeth rhan ddwyreiniol yr ynys. • Cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol pwysig, gan gynnwys cytrefi adar môr ar y clogwyni. 				
Canllawiau	Aseswyd yr ardal hon fel un sydd â sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau tyrbín gwynt o unrhyw faint a graddfa, ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau.				

ACT4: Maenorbŷr / Freshwater East

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er bod yr ACT hon yn cynnwys rhai datblygiadau sy'n effeithio ar ei naws sydd fel arall, yn agored, oherwydd y dirwedd amaethyddol draddodiadol gaeedig ar raddfa fach-ganolig, cynefinoedd o bwys rhyngwladol, a naws hanesyddol cryf am le, byddai ei sensitifrwydd i ddatblygiad tyrbinau gwynt ar y cyfan yn gymedrol-uchel.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd sy'n ei gwneud yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad tir fferm caeedig traddodiadol gyda synnwyr hanesyddol cryf o le. • Natur agored ymyl yr arfordir a golygfeydd ar hyd yr arfordir a thu hwnt i Ynys Bŷr. • Presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau adar o bwys rhyngwladol (e.e. yr hebog tramor, y frân goesgoch). • Cyfoeth o safleoedd hanesyddol ac archaeolegol, gan gynnwys tirwedd faenorol Maenorbŷr sydd wedi ei gwarchod (tirwedd o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol) • Dwy Ardal Gadwraeth ym Maenorbŷr a Phorth Lliw. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ACT hon yn addas ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr. • Mae tyrbinau sengl neu glystyrau bychain o dyrbinau ar raddfa fach yn debygol o fod yn fwy addas yn y dirwedd draddodiadol donnog ar y raddfa gweddol fach hon sy'n cael ei ffermio. Efallai y bydd cyfle ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau bychain o dyrbinau ar raddfa ganolig lle maen nhw'n cael eu lleoli'n sensitif, yn enwedig tua'r tir. • Cysylltu unrhyw ddatblygiad â mannau ffocws sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd, fel clystyrau o adeiladau neu safleoedd diwydiannol. • Ystyried effaith weledol traciau ac adeiladau ategol. Efallai y bydd rhai cyfleoedd ar gyfer tyrbinau gwynt ar raddfa fach (o dan 25 metr) o fewn datblygiadau trefol sydd eisoes yn bodoli neu rai newydd, neu ar eu cyrion. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio coetiroedd sydd eisoes yn bodoli, y dopograffeg donnog a pherthi sydd wedi gordyfu er mwyn integreiddio unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau tyrbîn yn y dirwedd. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbînau bach, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Lleoli tyrbînau i ffwrdd oddi wrth yr ymylon arfordirol fel nad ydynt yn ymwithio i olygfeydd arfordirol, yn enwedig at Ynys Bŷr a'r clogwyni arfordirol i'r dwyrain. Ystyried golygfeydd at y Preselau wrth leoli unrhyw ddatblygiadau tyrbîn. • Gwarchod yr ecoleg sydd o bwysigrwydd rhyngwladol drwy leoli tyrbînau i ffwrdd oddi wrth safleoedd o ddiddordeb. • Gwarchod safleoedd hanesyddol ac archaeolegol, gan gynnwys tirwedd faenorol Maenorbŷr sydd wedi ei gwarchod (tirwedd o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol). • Gwarchod cymeriad a lleoliad yr Ardaloedd Cadwraeth ym Maenorbŷr a Phorth Lliw. • Sicrhau nad ydyw unrhyw ddatblygiadau tyrbîn yn tynnu oddi ar y tirnodau amlwg ym Maenorbŷr; ei chastell, ei heglwys a'i cholomendy. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbîn gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniad a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁰.
--	--

¹⁰ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT5: Ystagbwll

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Oherwydd tirwedd ddynodedig yr ACT hon sydd o bwys diwylliannol a hanesyddol cenedlaethol, ei chymeriad caeedig a chyfyng, pwysigrwydd ecolegol eithriadol ei chynefinoedd amrywiol, y diffyg ffurfiau adeiledig a phresenoldeb archaeoleg bwysig wedi ei chladdu, mae'n sensitif iawn i ddatblygiadau tyrbîn gwynt. Mae felly wedi cael ei hasesu fel ardal sydd â sensitifrwydd uchel ar y cyfan i'r math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd sy'n ei gwneud yn sensitif i ddatblygiadau tyrbîn gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y synnwyr cryf o le a hwnnw'n hanesyddol iawn. • Natur dawel a llonydd yr ardal hon. • Tirwedd ddyffryn gaeedig, glos • Cynefinoedd amrywiol o bwysigrwydd rhyngwladol. • Y nodweddion archaeolegol a hanesyddol o bwys cenedlaethol. • Traethau tllws gyda phresenoldeb diwylliannol cryf. • Presenoldeb cytreffi o adar môr sy'n bridio ar y clogwyni. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ACT hon yn addas ar gyfer tyrbînau ar raddfa fawr a chanolig. • Mae'n debygol mai tyrbînau sengl ar raddfa fach fyddai'n fwyaf addas yn y dirwedd gaeedig a chlos hon. • Cysylltu unrhyw ddatblygiad â phwyntiau ffocws sydd eisoes yn bodoli ar y dirwedd, fel clystyrau adeiladau. • Defnyddio coetiroedd sydd eisoes yn bodoli a llethrau serth y dyffryn i integreiddio unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad tyrbîn yn y dirwedd. • Amddiffyn cymeriad hanesyddol cryf Ystâd Ystagbwll a sicrhau nad yw lleoliad unrhyw dyrbînau yn tynnu oddi ar hyn. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbînau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Lleoli tyrbinau i ffwrdd oddi wrth ymyl yr arfordir a thu allan i olygfeydd at y traethau ac o'r traethau yn Aber Llydan a Bae Barafundle.• Ceisio amddiffyn yr ecoleg o bwys rhyngwladol, gan gynnwys safleoedd adar sy'n bridio.• Amddiffyn safleoedd hanesyddol ac archaeolegol, gan gynnwys cymeriad a lleoliad Ystâd gynlluniedig Ystagbwll a'r cyfoeth o nodweddion archaeolegol sy'n gysylltiedig â Chwningar Ystagbwll.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbín gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹¹.
--	--

¹¹ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT6: Meysydd Tanio Castellmartin / Merrion

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae graddfa fawr y dirwedd hon, presenoldeb strwythurau milwrol ar y nenlinell, a'r sŵn tanio a fyddai fel arall yn dirwedd heddychol yn dynodi y gallai fod yn gartref i ragor o strwythurau gwneud, megis tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, mae ei nodweddion agored a gwyllt, ymdeimlad o bellnigrwydd, ei natur ansefydlog, golygfeydd hirfaith ar hyd yr arfordir, diddordeb archaeolegol cadarn a phresenoldeb cynefinoedd pwysig sy'n cynnal ystod o fywyd gwyllt, oll yn cyfrannu at gyfyngiadau ar gyfer datblygu tyrbinau a'u seilwaith cysylltiedig.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd a allai fod yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt ar unrhyw raddfa:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad gwyllt y dirwedd, gydag ymdeimlad gweddol anghysbell. • Ei chymeriad agored a noeth gyda golygfeydd hir ar draws yr arfordir. • Ei chymeriad sydd, i raddau helaeth, heb ei ddatblygu. • Nenlinell o gopaon cribau gyda llinellau amlwg tyrau a meindyrau eglwysi. • Presenoldeb safleoedd hanesyddol ac archaeolegol o bwys cenedlaethol. • Cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol a werthfawrogir, gan gynnwys glaswelltir arfordirol a rhostir. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw mwyafrif yr ACT hon yn addas ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr neu ganolig. Fodd bynnag, gallai fod cyfleoedd am dyrbin sengl neu glwstwr bach ar raddfa ganolig neu fawr (o dan 100m i ddiwedd y llafn) ar dir yn agos at simneiau purfeydd olew sy'n bodoli eisoes (ar ymyl gogledd orllewin yr ACT) i ddarparu pwynt ffocws newydd cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif yn unol â'r canllawiau isod. • Mewn mannau eraill, mae tyrbinau sengl neu glystyrau bychain ar raddfa fach yn addas. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod tyrbinau ymhell i ffwrdd oddi wrth ymyl yr arfordir i warchod y golygfeydd agored ar hyd yr arfordir a chymeriad naturiol ymyl yr arfordir. • Tyrbinau ar raddfa fechan sy'n gysylltiedig yn weledol â datblygiad adeiledig sydd eisoes yn bodoli (e.e. cyfagos i adeiladau) ac wedi'u gwasgaru yn y dirwedd yn hytrach nag wedi'u cyfyngu i un ardal benodol fydd fwyaf addas i'r dirwedd hon. • Osgoi cyfosod gwahanol dyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Sicrhau nad yw'r tyrbinau'n cystadlu gyda thyrau a meindyrau'r eglwys fel tirnodau ar y nenlinell. • Gwarchod yr ecoleg arfordirol sydd o bwys rhyngwladol, gan gynnwys cynefinoedd rhannol naturiol a safleoedd adar sy'n bridio ac ardaloedd bwydo. • Gwarchod safleoedd hanesyddol ac archaeolegol rhag seilwaith sy'n gysylltiedig â thyrbinau. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹².
--	---

¹² Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT 7: Penrhyn Angle

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae'r patrymau cae ar raddfa fach, y nenlinellau agored, heb eu datblygu, golygfeydd arfordirol pwysig, nawws am le hanesyddol cryf a phresenoldeb nodweddion archaeolegol a chynefinoedd bywyd gwyllt pwysig oll yn gosod cyfyngiadau ar ddatblygiad tyrbinau a'u seilwaith cysylltiedig.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd a allai fod yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt ar unrhyw raddfa:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei nenlinell noeth, heb ei datblygu, gyda golygfeydd arfordirol sensitif, gan gynnwys at Benrhyn y Santes Ann. • Graddfa fach y dirwedd gydag ymdeimlad cryf o lonyddwch. • Gwerth hanesyddol a diwylliannol neilltuol gan gynnwys presenoldeb safleoedd hanesyddol ac archaeolegol o bwys cenedlaethol, gan gynnwys Dyfrffordd Aberdaugleddau ac Ardal Gadwraeth Angle. • Rhywogaethau a chynefinoedd aberol gwerthfawr, gan gynnwys adar hela a rhydwyrr sy'n gaeafu. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw mwyafrif yr ACT hon yn addas ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr neu ganolig. Fodd bynnag, gallai fod cyfleoedd am dyrbin sengl neu glwstwr bach ohonynt ar raddfa ganolig neu fawr (o dan 100m i ddiwedd y llafn) ar dir yn agos at simneiau purfeydd o fewn sy'n bodoli eisoes (ar ymyl gorllewinol yr ACT) i ddarparu pwynt ffordd newydd cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif yn unol â'r canllawiau isod. • Efallai y bydd yna gyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau ar raddfa fach cyn belled â'u bod wedi'u gosod mewn ffordd sensitif gan ddilyn y canllawiau isod. • Tyrbinau ar raddfa fechan sy'n gysylltiedig yn weledol ag ardaloedd datblygedig a nodweddion adeiledig sydd eisoes yn bodoli ac wedi'u gwasgaru yn y dirwedd yn hytrach nag wedi'u cyfyngu i un ardal benodol fydd fwyaf addas i'r dirwedd hon. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi cyfosod gwahanol ddyuniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Gosod tyrbinau i ffwrdd oddi wrth ymylon yr arfordir sydd heb eu datblygu er mwyn amddiffyn golygfeydd arfordirol, gan gynnwys at Benrhyn y Santes Ann. • Gosod hwy ymhell i ffwrdd oddi wrth bentref Canoloesol cynlluniedig Angle. • Sicrhau nad yw patrymau cae amaethyddol traddodiadol gyda pherthi a gwrychoedd yn cael eu heffeithio. • Amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr, gan gynnwys Bae Angle oherwydd y rhywogaethau adar sy'n dod yno dros y gaeaf. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹³. • Adnabod a nodi effeithiau cronol traws-ffiniol posibl sy'n gysylltiedig â thyrbinau y tu hwnt i'r Parc Cenedlaethol.
--	--

¹³ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT8: Freshwater West / Brownslade Burrows

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae cymeriad anghysbell, heb ei ddatblygu'r ACT hon, a phresenoldeb system dwyni brin a chynefinoedd bywyd gwyllt o bwys cenedlaethol, yn awgrymu bod gan yr ACT hon sensitifrwydd uchel i dyrbinau gwynt o unrhyw raddfa.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd a fydd yn sensitif i ddatblygiadau tyrbîn ar unrhyw raddfa:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei chymeriad anghysbell, heb ei datblygu. • System dwyni brin. • Cynefinoedd rhannol naturiol amrywiol yn cefnogi ystod o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid pwysig. • Safleoedd hanesyddol ac archaeolegol gan gynnwys bryngaerau o'r Oes Haearn. 				
Canllawiau	Aseswyd yr ardal hon fel un sydd â sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau tyrbîn gwynt o unrhyw faint a graddfa, ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau.				

ACT 9: Marloes

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er bod yr ACT hon eisoes yn cynnwys peth tyrbinau ar raddfa fechan, mae'r anheddiad gwasgarog, y cymeriad gwledig yn bennaf, rhyng-welededd gydag ynysoedd oddi ar y lan, nenlinellau heb eu datblygu a'r dreftadaeth ddiwylliannol gref a'r cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr yn golygu bod gan y dirwedd hon, yn gyffredinol, sesitifrwydd gymredol-uchel i ddatblygiadau tyrbinau gwynt.				
	Ise	Cymedrol-Ise	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd sy'n sensitif i ddatblygiadau tyrbinau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei naws gref o lonyddwch gwledig a'r nenlinellau heb eu datblygu. • Golygfeydd arfordirol, gan gynnwys y golygfeydd at ynysoedd Sgomer a Sgogwm, ac oddi yno. • Ymdeimlad cryf o lonyddwch a natur gweddol anghysbell, yn enwedig ym Mhenrhyn y Santes Ann. • Goleudai sy'n ffurfio tirnodau ar nenlinell sydd fel arall yn agored. • Cynefinoedd gweundir a thraethlin o bwys rhyngwladol yn cefnogi rhywogaethau, megis yr hebog tramor a'r morlo llwyd. • Nodweddion hanesyddol a thirweddau diwylliannol pwysig, gan gynnwys safleoedd o gynhanes a Dyfrffordd yr Aberdaugleddau. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ACT hon yn addas ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr. • Efallai y bydd cyfle ar gyfer tyrbinau sengl ar raddfa fechan yn agos at elfennau adeiledig sydd eisoes yn bodoli (fel adeiladau fferm). Efallai y bydd yna gyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau ar raddfa ganolig cyn belled â'u bod wedi'u gosod mewn ffordd sensitif. Mae'n rhaid glynu wrth y canllawiau isod. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi cyfosod gwahanol ddyuniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Sicrhau nad yw'r tyrbinau'n cystadlu gyda goleudai fel tirnodau ar y nenlinell, nac yn tynnu oddi arnynt. • Sicrhau bod datblygiadau ategol wedi'u hintegreiddio'n dda yn y dirwedd. • Diogelu safleoedd hanesyddol ac archaeolegol a'u lleoliad, gan gynnwys safleoedd a henebion o gynhanes, a nodweddion canoloesol. • Osgoi effeithio ar unrhyw gynefinoedd gweundir a thraethlin a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁴.
--	--

¹⁴ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT 10: Sgomer a Sgogwm

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Byddai agwedd agored yr ynysoedd yn cynnig potensial sylweddol i ffrwyno ynni gwynt. Fodd bynnag, oherwydd eu bod mor weladwy o'r prif dir, y nenlinellau agored, nodweddion gwyllt sy'n diffinio, nodweddion hanesyddol ac archaeolegol o bwys rhyngwladol, treftadaeth naturiol o bwys rhyngwladol a diffyg tarfu gan bobl, mae ganddynt sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau tyrbîn gwynt o unrhyw faint neu raddfa.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd sy'n sensitif i dyrbînau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad agored a noeth gyda golygfeydd môr panoramig. • Nodweddion gwyllt cryf. • Gwelededd uchel mewn golygfeydd o fwyafrif y tir mawr lleol. • Absenoldeb aflonyddwch dynol. • Cytrefi o adar môr a chynefinoedd naturiol o bwys rhyngwladol. • Olion archaeoleg o bwys rhyngwladol, gan gynnwys nodweddion anheddiad ac amaeth cyn-hanesyddol. • Perthynas barhaus rhwng yr ynysoedd a'r môr. 				
Canllawiau	Aseswyd yr ardal hon fel un sydd â sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau tyrbîn gwynt o unrhyw faint a graddfa, ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau.				

ACT 11: Herbrandston

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae presenoldeb dominyddol diwydiant ar dir yn yr ACT hon a gerllaw, yn awgrymu y gallai roi lle i strwythurau ychwanegol a wnaed gan ddyn ar y nenlinell. Fodd bynnag, mae nodweddion tawel, gwledig y dirwedd, ei hanheddiad ysgafn, ei threftadaeth hanesyddol a diwylliannol eithriadol a chynefinoedd morydol gwerthfawr oll yn cynyddu sensitifrwydd i ddatblygiad tyrbinau.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-Uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd sy'n sensitif i ddatblygiadau tyrbinau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei chymeriad amaethyddol, tawel. • Cynefinoedd morydol gwerthfawr ar hyd Pyl Sandy Haven ac Aberdaugleddau. • Tirweddau diwylliannol a nodweddion hanesyddol pwysig, gan gynnwys strwythurau sy'n gysylltiedig â Thirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau. • Golygfeydd o Lanisan-yn-rhos ar draws Pyl Sandy Haven a golygfeydd ar draws Dyfrffordd Aberdaugleddau. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ACT hon yn addas ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr. • Fodd bynnag, gellir cael cyfleoedd prin am dyrbin sengl neu glwstwr bach ohonynt ar raddfa ganolig neu fawr (o dan 100m i ddiwedd y llafn) ar dir yn agos at simneiau purfeydd olew sy'n bodoli eisoes (ar ymyl gorllewinol yr ACT) i ddarparu pwynt ffocws newydd cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif yn unol â'r canllawiau isod. Efallai y bydd yna gyfleoedd ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau bach o dyrbinau ar raddfa fach wedi eu lleoli o fewn clystyrau o adeiladau sydd eisoes yn bodoli yn yr ACT, neu rai newydd, neu gerllaw iddynt. • Tyrbinau ar raddfa fach sy'n gysylltiedig yn weledol â chlystyrau o adeiladau sy'n bodoli eisoes neu rai newydd ac wedi'u gwasgaru yn y dirwedd yn hytrach nag wedi'u 				

	<p>cyfyngu i un ardal benodol fydd fwyaf addas i'r dirwedd hon.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Lleoli tyrbinau oddi wrth gynefinoedd morydol pwysig. • Sicrhau nad yw datblygiadau yn cael effaith niweidiol ar leoliad y safleoedd hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol. Ystyried yn benodol sut mae unrhyw ddatblygiad yn ymddangos mewn golygfeydd o Bil Sandy Haven a thuag at Bil Sandy Haven. Great Castle a Phenrhyn y Santes Ann (ACT 9) ac ar draws Dyfrffordd yr Aberdaugleddau tuag at Benrhyn Angle (ACT 7). • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁵. • Adnabod a nodi effeithiau cronol traws-ffiniol posibl sy'n gysylltiedig â thyrbinau y tu hwnt i'r Parc Cenedlaethol.
--	--

¹⁵ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT12: Bae Sain Ffraid

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er bod hon yn dirwedd ar raddfa fawr, mae'r nenlinellau agored, ymylon anghysbell yr arfordir sydd heb eu datblygu, a phresenoldeb nodweddion hanesyddol ac archaeolegol, yn cyfyngu ar ddatblygiad tyrbinau gwynt.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd a allai fod yn sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt ar unrhyw raddfa:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y berthynas gref rhwng y tir a'r arfordir a golygfa a sŵn parhaus y môr. • Y golygfeydd ar draws Fae Sain Ffraid ac ar hyd yr arfordir sydd heb ei ddatblygu. • Yr ymdeimlad anghysbell/llonyddwch sy'n gysylltiedig â'r tir uwch a'r traeth o gerrig cobl ar Draeth Niwglwl. • Tirweddau o werth ecolegol uchel. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ACT hon yn addas ar gyfer tyrbinau ar raddfa fawr neu ganolig. • Efallai y bydd yna gyfleoedd cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau bychain o dyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd o'r dirwedd donnog sy'n cael ei ffermio. • Tyrbinau ar raddfa fach sy'n gysylltiedig yn weledol ag adeiladau neu ffermydd sy'n bodoli eisoes ac wedi'u gwasgaru yn y dirwedd yn hytrach nag wedi'u cyfyngu i un ardal benodol fydd fwyaf addas i'r dirwedd hon. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Osgoi lleoli tyrbinau ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu o fewn golygfeydd ar draws Bae Sain Ffraid. • Osgoi lleoli tyrbinau yn yr ardaloedd tawelaf h.y. ar y tir uwch a'r traeth o gerrig cobl yn Niwglwl. • Ystyried golygfeydd at arfordir Marloes, pentir Tyddewi a'r ynysoedd oddi ar y lan a'r golygfeydd oddi yno. • Gwarchod cynefinoedd o werth ecolegol uchel. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Gwarchod nodweddion hanesyddol ac archaeolegol a'r berthynas gyda'r dirwedd o'u hamgylch, gan gynnwys safleoedd a henebion o gynhanes.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbîn gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁶.• Adnabod a nodi effeithiau cronol traws-ffiniol posibl sy'n gysylltiedig â thyrbinau y tu hwnt i'r Parc Cenedlaethol.
--	--

¹⁶ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT13: Brandy Brook

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae presenoldeb prif ffordd yr A487 sy'n torri ar draws gorllewin yr ACT hon yn cyflwyno ffurf ddynol a allai awgrymu y gallai'r dirwedd roi lle i ragor o strwythurau a wnaed gan ddyn. Yn ychwanegol at hyn, gall y coetir a'r llystyfiant awgrymu y gellid cuddio rhai strwythurau o'r golwg. Fodd bynnag, mae ei graddfa fach, ei hymdeimlad cryf o heddwch a llonyddwch, ei pherthynas weledol gref gyda Chastell y Garn, cynefinoedd a rhywogaethau afonydd gwerthfawr ac olion archaeolegol oll yn cyfyngu ar ddatblygiad tyrbinau gwynt.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddau	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd a fyddai'n sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei chymeriad clos ar raddfa fach. • Yr ymdeimlad perthynol o heddwch a llonyddwch. • Perthynas weledol gref gyda Chastell y Garn fel nodwedd amlwg ar y nenlinell. • Yr olygfa tua'r môr o gopa'r bryniau. • Cynefinoedd torlannol gwerthfawr sy'n cefnogi rhywogaethau, megis y dyfrgi. • Olion pwysig o gynhanes. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr neu ganolig yn briodol yn y dirwedd hon oherwydd ei chymeriad heddychlon ar raddfa fach. • Tyrbinau ar raddfa fach sydd wedi'u cysylltu'n weledol â grwpiau o adeiladau sy'n bodoli eisoes ac wedi'u gwasgaru yn y dirwedd yn hytrach nag wedi'u cyfyngu i un ardal benodol fydd fwyaf addas i'r dirwedd hon. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Sicrhau mai Castell y Garn yw'r nodwedd flaenllaw ar y nenlinell o hyd, gan sicrhau nad ydyw lleoliad y tyrbinau yn gwrthdaro gyda'r tirmod lleol hwn. • Defnyddio coetiroedd yr ardal i sgrinio yn erbyn unrhyw dyrbinau neu seilwaith cysylltiedig. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal y golygfeydd arfordirol i Bentir Tyddewi a Bae Sain Ffraid ac oddi yno.• Gwarchod cynefinoedd rhannol naturiol gwerthfawr yr ardal a'r olion archaeolegol wrth ystyried lleoliad y tyrbinau a'r seilwaith.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbîn gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniad a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁷.• Adnabod a nodi effeithiau cronol traws-ffiniol posibl sy'n gysylltiedig â thyrbinau y tu hwnt i'r Parc Cenedlaethol.
--	---

¹⁷ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT 14: Cwm Solfach

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae gorffennol diwydiannol yr ardal, presenoldeb adeiladau / nodweddion adeiledig a gorchudd coetir uchel yn awgrymu y gallai'r ACT hon roi lle i strwythurau a wnaed gan ddyn os ydynt wedi'u lleoli'n dda. Fodd bynnag, mae cymeriad heddychlon, graddfa fach, naws am le hanesyddol cryf, presenoldeb treftadaeth hanesyddol ac archaeolegol eithriadol, a phresenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr Solfach, oll yn cynyddu sensitifrwydd i ddatblygiad tyrbinau gwynt.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r tirweddau sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad clos ar raddfa fach tirwedd y cwm a'i ymdeimlad o lonyddwch. • Naws am le hanesyddol Solfach a'r diddordeb hanesyddol, diwylliannol a phensaernïol arbennig (fel y cydnabyddir gan ei statws Ardal Gadwraeth). • Y cysylltiad cryf rhwng yr harbwr yn Solfach a'r arfordir. • Nodweddion hanesyddol ac archaeolegol eithriadol, yn enwedig odyrau calch ger harbwr Solfach. • Cynefinoedd gweundir o bwys rhyngwladol ar hyd llawr y cwm yn cefnogi rhywogaethau o flaenoriaeth, megis yr hebog tramor a'r frân goesgoch. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr neu ganolig yn addas yn y dirwedd hon oherwydd ei graddfa fach. • Efallai y bydd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl ar raddfa fach cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli'n sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Gosod tyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd yn unig. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib • Osgoi cyfod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio coetiroedd yr ardal i sgrinio seilwaith cysylltiedig. • Gwarchod cynefinoedd gweundir gwerthfawr yr ardal a'r rhywogaethau y maen nhw'n eu cefnogi. • Peidio â gadael i leoliad tyrbinau a seilwaith cysylltiedig effeithio ar gymeriad a lleoliad yr Ardaloedd Cadwraeth o fewn y pentref a'r cwm. • Sicrhau na fydd y tyrbinau'n effeithio ar naws am le hanesyddol Solfach a'r diddordeb hanesyddol, diwylliannol a phensaernïol arbennig (fel y cydnabyddir gan ei statws Ardal Gadwraeth). • Gwarchod pwysigrwydd nodweddion hanesyddol ac archaeolegol, er enghraifft yr odynau calch yn Solfach. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbîn gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniad a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁸.
--	--

¹⁸ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT 15: Comin Dowrog a Thretio

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae graddfa fawr y dirwedd hon, presenoldeb nodweddion a wnaed gan ddyn (maes awyr a phrif ffordd) a'r diffyg nenlinellau amlwg o fewn yr ACT yn awgrymu y gallai'r dirwedd hon roi lle i nodweddion adeiledig sydd wedi'u lleoli'n dda, megis tyrbinau gwynt. Fodd bynnag, mae'r ymdeimlad perthynol o lonyddwch, rhyng-weledd gyda mynyddoedd Carn Llidi a Thyddewi, pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol eithriadol, a phresenoldeb cynefinoedd rhannol naturiol gwerthfawr iawn oll yn cynyddu sensitifrwydd i'r math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd a fyddai'n sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei nenlinellau agored, heb eu datblygu ac yn rhyng-weladwy gyda mynyddoedd Carn Llidi. • Yr ymdeimlad gwledig cryf o lonyddwch, yn enwedig i ffwrdd oddi wrth y brif ffordd drwy'r ACT. • Yr ardaloedd sylweddol o dir comin di-gaeedig gyda chynefinoedd gweundir sy'n werthfawr yn rhyngwladol. • Diddordeb hanesyddol a diwylliannol eithriadol, yn enwedig safleoedd o gynhanes a henebion Cristnogol cynnar yn cysylltu â Thirwedd Hanesyddol Gristnogol Ynys Dewi a Phentir ehangach Tyddewi, ac Ardal Gadwraeth Caerfarchell. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr a chanolig yn addas yn y dirwedd agored hon oherwydd ei bod yn rhyng-weladwy ag ardaloedd cyfagos. • Efallai y bydd yna gyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl ar raddfa fach cyn belled â'u bod wedi'u gosod yn sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Lleoli tyrbinau sengl ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i'r adeiladau neu'r strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd yn unig. Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Ystyried golygfeydd o Garn Llidi a phentir Tyddewi wrth leoli tyrbinau bach • Gwarchod yr ardaloedd mwyaf llonydd (efallai y bydd cyfle i osod tyrbinau bach yn agos at y brif ffordd). • Sicrhau nad yw tyrbinau a seilwaith yn effeithio ar dir comin a chynefinoedd gweundir gwerthfawr yr ardal. • Sicrhau nad yw datblygiad tyrbinau yn effeithio ar gymeriad a lleoliad Ardal Gadwraeth Caerfarchell. • Sicrhau nad yw datblygiad tyrbinau yn effeithio ar arwyddocâd cynhanesyddol y dirwedd hon na gwerth Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Ynys Dewi a Phentir Tyddewi. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol¹⁹.
--	---

¹⁹ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT16: Carn Llidi

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae'r nenlinellau creigiog agored, nodweddiadol, ymdeimlad anghysbell cryf gyda phrin unrhyw darfu gan ddyn, a'r cyfoeth o archaeoleg eithriadol a chynefinoedd o bwys rhyngwladol oll yn cyfyngu'n ddifrifol ar y math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd sy'n ei gwneud yn anaddas i dyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei nenlinellau agored, caregog nodweddiadol a'i rhyngwelededd â thir is, gan gynnwys Tyddewi a Chomins Dowrog a Thretio • Yr ymdeimlad cryf o lonyddwch a phellenigrwydd, gydag ychydig o ddatblygiad dynol. • Ei harchaeoleg o bwys cenedlaethol, sy'n arddangos miloedd o flynyddoedd o ddefnydd ac anheddiad (a gydnabyddir fel rhan o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi). • Ei chynefinoedd rhostir a morol o bwys rhyngwladol. 				
Canllawiau	Aseswyd yr ardal hon fel un sydd â sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau tyrbinau gwynt o unrhyw faint a graddfa, ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau.				

ACT18: Penrhyn Tyddewi

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae cymeriad anghysbell, gwledig y dirwedd hon, y nenlinellau agored, heb eu datblygu, golygfeydd arfordirol helaeth, y cyfoeth o archaeoleg eithriadol a'r cynefinoedd o bwys rhyngwladol, oll yn cyfyngu'n ddifrifol ar y math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, tua'r tir, mae ardaloedd wedi eu trin ychydig yn llai sensitif.				
	Ise	Cymedrol-Ise	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd a fyddai'n sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei chymeriad gwledig, heddychlon, gyda phrin unrhyw ymwithiadau adeiledig, yn enwedig ar hyd yr arfordir ac ar y pentir. • Mae ei nenlinellau agored, heb eu datblygu, gydag Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn dirnod lleol amlwg. • Y golygfeydd arfordirol helaeth heb eu difetha, gan gynnwys y rheiny at Ynys Dewi ac oddi yno. • Ei gwerth hanesyddol a diwylliannol eithriadol, gan gynnwys nodweddion o gynhanes, megis anheddiad Neolithig Clegyr Boia a safleoedd Cristnogol cynnar. • Presenoldeb cynefinoedd gweundir, glaswelltir a gwlypdir o bwys rhyngwladol. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr a chanolig yn briodol yn y dirwedd agored hon. • Efallai y bydd yna gyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl ar raddfa fach cyn belled â'u bod wedi'u gosod yn sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Lleoli tyrbinau sengl ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd yn unig, ymhell oddi wrth ymyl yr arfordirol. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal y golygfeydd agored ar hyd yr arfordir ac i Ynys Dewi, Carn Llidi, Bae Sain Ffraid a thua'r de at Arfordir Marloes – ystyried y golygfeydd o'r tirweddau hyn wrth leoli tyrbinau.• Sicrhau bod Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn parhau i fod yn amlwg ar y nenlinell, ac nad yw lleoliad tyrbinau yn gwrthdaro gyda'r tinnod lleol pwysig hwn.• Sicrhau nad yw tyrbinau bach nac unrhyw seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar gynefinoedd gwlypdir a gweundir gwerthfawr yr ardal.• Sicrhau nad yw tyrbinau bach ac unrhyw seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar archaeoleg yr ardal, gan gynnwys anheddiad Neolithig Clegyr Boia.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²⁰.
--	--

²⁰ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'chymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT19: Ynys Dewi

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Byddai agwedd agored a chymeriad noeth y dirwedd hon yn darparu potensial sylweddol i ffrwyno ynni gwynt. Fodd bynnag, oherwydd ei hymdeimlad treiddiol o wylltineb, treftadaeth naturiol drawiadol, gwelededd uchel yr ynys o'r prif dir, diffyg tarfu gan ddyn a nodweddion hanesyddol ac archaeolegol o bwys rhyngwladol, ynghyd â'i gwerth uchel ar gyfer cadwraeth natur, mae hyn oll yn cyfyngu'n ddifrifol ar ddatblygiad tyrbinau gwynt.				
	IseI	Cymedrol-IseI	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma brif briodoleddau'r dirwedd sy'n ei gwneud yn addas i dyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei natur wyllt treiddiol, treftadaeth naturiol drawiadol a diffyg tarfu gan ddyn/anheddiad. • Ei hamlygrwydd gweledol uchel o'r prif dir, a'r nenlinell agored, heb ei ddatblygu. • Presenoldeb olion hanesyddol ac archaeolegol o bwys rhyngwladol, gan gynnwys y capel Canoloesol a'r crugiau crwn o gynhanes. • Ei chynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr iawn, gan gynnwys gweundir a chlogwyni morol, ynghyd â phresenoldeb cytreffi o adar y môr. 				
Canllawiau	Aseswyd yr ACT hon fel un sy'n anaddas ar gyfer datblygiad tyrbinau gwynt o unrhyw faint ac ar unrhyw raddfa; felly nid ydym wedi cynnwys unrhyw ganllawiau.				

ACT20: Trefin

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Efallai y bydd graddfa fawr y dirwedd hon, ei hagwedd agored, ei chymeriad setledig, a gweithgarwch diwydiannol yn y gorffennol, yn awgrymu y gellir rhoi lle i nodweddion fel tyrbinau gwynt o fewn yr ACT os cânt eu lleoli'n sensitif. Fodd bynnag, mae ei nenlinellau heb eu datblygu, golygfeydd arfordirol helaeth, ymdeimlad gweddol anghysbell ar yr ymyl arfordirol, gwerth uchel y cynefinoedd arfordirol a'r gweundir, a phresenoldeb safleoedd hanesyddol ac archaeolegol o bwys cenedlaethol oll yn cynyddu sensitifrwydd i dyrbinau gwynt.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r tirweddau sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiadau tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei hagwedd agored ar raddfa fawr, a nenlinellau heb eu datblygu. • Y golygfeydd helaeth ar hyd yr arfordir. • Ymdeimlad cymharol gryf yr ardal o bellenigrwydd, yn enwedig ar ymyl yr arfordir. • Y cyfoeth o safleoedd archaeolegol o bwys cenedlaethol, yn ymwneud yn benodol â threftadaeth ddiwydiannol yr ardal, megis odyrau calch a chwarel enwog y Lagŵn Glas. • Cymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth yn Nhre-fin a Phorthgain. • Gwerth uchel ei chynefinoedd, yn enwedig ar hyd y clogwyni arfordirol a'r ardaloedd o weundir isel. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr a chanolig yn addas yn y dirwedd hon. • Efallai y bydd cyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau bach o dyrbinau ar raddfa fach cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Gosod tyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd yn unig. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Cynnal golygfeydd agored ar hyd yr arfordir drwy osod tyrbinau a seilwaith cysylltiedig oddi wrth ymyl yr arfordir. Gwarchod golygfeydd at yr arfordir hwn o'r ACT tua'r tir (15 ac 16) drwy osod tyrbinau mewn ffordd sensitif. • Sicrhau nad yw tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar gynefinoedd gwerthfawr yr ardal yn y gweundir ac ar gopa'r clogwyni. • Sicrhau nad yw tyrbinau'n cael effaith niweidiol ar gymeriad neu leoliad yr Ardaloedd Cadwraeth yn Nhrefin a Phorthgain. • Sicrhau nad yw tyrbinau yn cael effaith niweidiol ar nodweddion hanesyddol ac archaeolegol gwerthfawr yr ardal gan gynnwys odyrau calch a nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwydiannol. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²¹.
--	---

²¹ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT21: Pen-caer / Pen Strwmbwl

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Byddai agwedd agored y dirwedd hon yn ei gwneud yn addas iawn i ffrwyno ynni gwynt. Fodd bynnag, mae ei nenlinellau agored, heb eu datblygu, golygfeydd arfordirol helaeth, ymdeimlad cryf o heddwch a llonyddwch, cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr, a phresenoldeb safleoedd hanesyddol ac archaeolegol o bwys cenedlaethol, oll yn gosod cyfyngiadau ar ddatblygiad tyrbinau.				
	Ise	Cymedrol-Ise	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiad tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nenlinellau o glogwyni arfordirol garw a chopaon bryniau creigiog, heb eu datblygu ac yn llawn cymeriad. • Tirnodau goleudy Pen-caer a'r fryngaer o'r Oes Haearn yng Ngharn Fawr. • Y golygfeydd helaeth ar hyd yr arfordir a'r rhyng-welededd gyda Mynyddoedd y Preseli. • Yr ymdeimlad cryf o heddwch a llonyddwch, gydag anheddiad gwasgarog a diffyg datblygiadau ymwthiol. • Presenoldeb safleoedd archaeolegol o bwys cenedlaethol, gan gynnwys y bryngaerau amlwg yng Ngharn Fawr a Garn Fechen a safleoedd Cristnogol cynnar. • Ei chynefinoedd gwerthfawr, yn enwedig ar hyd y clogwyni arfordirol a chopaon agored y bryniau. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr a chanolig yn addas yn y dirwedd hon. • Efallai y bydd yna gyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl ar raddfa fach cyn belled â'u bod wedi'u gosod yn sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Lleoli tyrbinau sengl ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn unig, yn ddelfrydol ger ffermydd sydd eisoes yn bodoli, ac oddi wrth ymyl yr arfordir. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Sicrhau nad yw tyrbinau yn effeithio ar y gorwelion sydd heb eu datblygu ac sy'n llawn cymeriad gyda chlogwyni arfordirol garw a chopau creigiog y bryniau. • Ystyried golygfeydd at Fynyddoedd y Preseli yn y dwyrain, ac oddi yno, wrth leoli unrhyw dyrbinau. • Sicrhau nad yw'r tyrbinau'n gwrthdaro gyda nodweddion pwysig y dirwedd, sef y bryngaerau ar Garn Fawr a Garn Fechan, a'r goleudy ar Ben Strwmbwl. • Peidio â gosod tyrbinau o unrhyw faint ar Ben Strwmbwl, neu ar hyd arfordir unigryw'r dirwedd. • Sicrhau nad yw tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar gynefinoedd gwerthfawr yr ardal ar y gweundir ac ar gopa'r clogwyni neu nodweddion hanesyddol ac archaeolegol gwerthfawr yr ardal, yn enwedig ei safleoedd a'i henebion Cristnogol cynnar a'r rhai o gynhanes. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²².
--	---

²² Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT22: Mynydd Carningli

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Oherwydd nenlinellau nodedig creigiog a heb eu datblygu'r dirwedd hon, yr ymdeimlad cryf o lonyddwch a phellenigrwydd, cynefinoedd a werthfawrogir yn rhyngwladol, a safleoedd hanesyddol ac archaeolegol o bwys cenedlaethol, mae gan yr ACT hon sensitifrwydd uchel i unrhyw ddatblygiad tyrbinau ar unrhyw raddfa.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiad tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei nenlinellau heb eu datblygu gyda chraig-ffurfiadau nodedig a bryngaerau o'r Oes Haearn, sy'n nodweddion amlwg pan edrychir arnynt o'r dirwedd o amgylch. • Rhyng-weledd yr ardal gyda'r arfordir a Mynyddoedd y Preseli. • Yr ymdeimlad cryf o lonyddwch a phellenigrwydd a'r ffaith ei bod yn weddol anhygyrch. • Yr anheddiad gwasgarog a diffyg datblygiadau ymwithiol. • Presenoldeb safleoedd archaeolegol o bwys cenedlaethol, gan gynnwys bryngaerau amlwg Garn Fawr a Garn Fechen a safleoedd Cristnogol cynnar. • Ei chynefinoedd gwerthfawr (gan gynnwys rhostir a gweundir agored), yn enwedig ar hyd y clogwyni arfordirol a chopaon agored y bryniau. 				
Canllawiau	Aseswyd yr ardal hon fel un sydd â sensitifrwydd uchel i ddatblygiadau tyrbinau gwynt o unrhyw faint a graddfa, ac felly ni chynhwyswyd unrhyw ganllawiau.				

ACT24: Pen Dinas

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er bod gan y dirwedd hon dirffurf ar raddfa fawr a chymeriad setledig, mae ei hymdeimlad eithaf llonydd, nenlinell agored, heb ei datblygu, golygfeydd arfordirol ac archaeoleg werthfawr o gynhanes, oll yn cyflwyno sensitifrwydd i'r math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r tirweddau sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiadau tyrbîn gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penrhyn amlwg Pen Dinas a'r arfordir creigiog, sy'n weladwy o lawer o olygfeydd o fewn yr ACT. • Yr ymdeimlad eithaf llonydd oddi wrth yr A487. • Patrwm anheddiad gwasgarog, traddodiadol y dirwedd. • Y golygfeydd unigryw o Fynydd Carningli a Mynyddoedd y Preseli a'r gweledd rhyngddynt. • Presenoldeb olion o gynhanes a werthfawrogir yn genedlaethol, gan gynnwys beddrod siambr Cerrig y Gof, fel rhan o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Trefdraeth a Charningli. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbînau ar raddfa fawr a chanolig yn addas yn y dirwedd hon. • Efallai y bydd yna gyfleoedd cyfyngedig ar gyfer tyrbînau sengl ar raddfa fach cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Lleoli tyrbînau sengl ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli ar y dirwedd, gan gynnwys ger adeiladau fferm sydd eisoes yn bodoli, ac ymhell oddi wrth ymyl yr arfordir. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbînau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbînau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Sicrhau nad yw tyrbînau yn effeithio ar y nenlinellau llawn cymeriad a heb eu datblygu o glogwyni arfordirol garw a 				

	<p>nodwedd unigryw Pen Dinas. Peidio â lleoli unrhyw dyrbinau ar Ben Dinas.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried golygfeydd at Fynydd Preseli a Mynydd Carningli ac oddi yno, wrth leoli unrhyw dyrbinau. • Sicrhau na fydd tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar olion yr ardal o gynhanes o fewn Tirwedd Gofrestredig Trefdraeth a Charningli sydd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, yn enwedig bedd Neolithig Cerrig y Gof. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbin gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²³. • Adnabod a nodi effeithiau cronol traws-ffiniol posibl sy'n gysylltiedig â thyrbinau y tu hwnt i'r Parc Cenedlaethol.
--	---

²³ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT25: Penrhyn Cemaes

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er bod gan y dirwedd hon dirffurf ar raddfa fawr, mae ei hymdeimlad eithaf llonydd, nenlinellau agored, heb eu datblygu, golygfeydd arfordirol ac archaeoleg werthfawr o gynhanes, oll yn cyflwyno sensitifrwydd i'r math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddau	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd a fyddai'n arbennig o sensitif i ddatblygiad tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Patrwm anheddiad gwasgarog y dirwedd, diffyg datblygiad gweladwy a'r ymdeimlad cryf o lonyddwch. • Ei nenlinellau agored, heb eu datblygu, gan gynnwys tomenni claddu nodedig a thwmwli ar frigiad uchel Crugiau Cemaes. • Yr ymyl arfordirol noeth ac agored a golygfeydd arfordirol pwysig. • Rhyng-welededd gyda Mynydd Carningli a Mynydd Preseli gerllaw. • Presenoldeb olion o gynhanes a werthfawrogi yn genedlaethol, gan gynnwys tomenni claddu a thwmwli ar frigiad uchel Grugiau Cemaes. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr a chanolig yn addas yn y dirwedd hon. • Efallai y bydd cyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau bach o dyrbinau ar raddfa fach cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Lleoli tyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn unig, e.e. ger adeiladau fferm sydd eisoes yn bodoli, ac oddi wrth ymyl yr arfordir. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Manteisio ar effaith sgrinio coetiroedd a gwrychoedd yr ardal wrth leoli unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt.• Sicrhau nad yw thyrbinau yn effeithio ar y nenlinellau sydd heb eu datblygu gyda chlogwyni arfordirol uchel neu nenlinellau fel y'u gwelir nhw o'r arfordir.• Ystyried golygfeydd at Fynydd Preseli a Mynydd Carningli ac oddi yno, wrth leoli unrhyw dyrbinau.• Sicrhau nad yw thyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar olion o gynhanes yn yr ardal, gan gynnwys tomenni claddu a thwmwli ar frigiad uchel Grugiau Cemaes.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²⁴.
--	--

²⁴ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'chymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT26: Cwm Gwaun / Afon Nyfer

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae graddfa fach a chlos y cymoedd, lefelau uchel o lonyddwch, anheddiad gwasgarog a phresenoldeb cynefinoedd rhannol naturiol gwerthfawr a safleoedd hanesyddol oll yn cyflwyno cyfyngiadau ar y math hwn o ddatblygiad ynni adnewyddadwy.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddau	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd sy'n arbennig o sensitif i ddatblygiad tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Graddfa fach a chymeriad cartrefol tirwedd y cymoedd. • Patrwm anheddiad gwasgarog y dirwedd, y diffyg datblygiadau yn ddiweddar a'r ymdeimlad o lonyddwch. • Ei nenlinellau coediog, heb eu datblygu, a golygfeydd at ucheldir cyfagos Mynydd Carningli a Mynydd Preseli. • Cynefinoedd gwerthfawr y coetir a'r dolydd, yn enwedig yng Nghwm Gwaun. • Archaeoleg y dirwedd sydd ag arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys bryngaerau o'r Oes Haearn a beddi Neolithig o amgylch Nyfer. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr neu ganolig yn addas yn y dirwedd hon. • Efallai y bydd yna gyfleoedd cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl ar raddfa fach cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. Lleoli tyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol ag adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd, yn ddelfrydol ger adeiladau sydd eisoes yn bodoli. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi gosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau yn agos at ei gilydd, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Manteisio ar effaith sgrinio coetiroedd a gwrychoedd yr ardal wrth leoli unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt ar raddfa fechan. 				

	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau nad yw tyrbinau yn effeithio ar nenlinellau'r cymoedd sydd heb eu datblygu, nac unrhyw olygfeydd at Fynydd Preseli a Mynydd Carningli gerllaw. • Sicrhau nad yw tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar nodweddion hanesyddol ac archaeolegol yr ardal, yn enwedig y bryngaerau o'r Oes Haearn ar frigau'r cwm a beddrodau Neolithig o gwmpas Nyfer. • Sicrhau nad yw tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar safleoedd yr ardal sydd wedi eu dynodi'n rhyngwladol at ddibenion gwarchod natur ac nad ydynt yn arwain at golli coetir. • Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²⁵.
--	--

²⁵ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'chymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT27: Mynydd Preseli

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Mae tirffurf amlwg y dirwedd, y nenlinellau heb eu datblygu, absenoldeb anheddiad a datblygiadau adeiledig, ac olion o gynhanes sy'n werthfawr yn genedlaethol, oll yn cyflwyno cyfyngiadau sylweddol ar ddatblygiad tyrbinau gwynt.				
	Isel	Cymedrol-Isel	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd a fyddai'n arbennig o sensitif i ddatblygiad tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ei chymeriad rhostir agored gydag ymdeimlad trechol o lonyddwch a phellenigrwydd. • Diffyg datblygiad a gorchudd coetir. • Amlygrwydd gweledol cryf y brynau yn nhirwedd ehangach gogledd Sir Benfro. • Y golygfeydd helaeth at yr arfordir ac ar draws y tirweddau o amgylch. • Ei hadnodd archaeolegol a werthfawrogir yn genedlaethol, yn enwedig lled ac amrediad yr olion o gynhanes. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai'r dirwedd hon yn sensitif iawn i ddatblygiadau tyrbinau o bob maint ac ar bob graddfa. Mae'n bosibl y bydd potensial cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau o dyrbinau ar raddfa fach, cyn belled â bod y canllawiau isod yn cael eu dilyn. • Lleoli tyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli ar y dirwedd yn unig, yn ddelfrydol ger adeiladau fferm sydd eisoes yn bodoli. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfosod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. • Manteisio ar effaith sgrinio llystyfiant yr ardal wrth leoli unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt. • Sicrhau nad yw tyrbinau yn effeithio ar y nenlinellau sydd heb eu datblygu a golygfeydd ar draws y dirwedd amgylchynol tuag at yr arfordir. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Peidio â lleoli tyrbinau mewn safleoedd amlwg a allai fod yn weladwy o ardaloedd cyfagos.• Sicrhau na fydd tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar olion yr ardal o gynhanes o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru'r Preseli.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i lleoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniad a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²⁶.• Adnabod a nodi effeithiau cronol traws-ffiniol posibl sy'n gysylltiedig â thyrbinau y tu hwnt i'r Parc Cenedlaethol.
--	--

²⁶ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.

ACT28: Daugleddau

Nodwedd y dirwedd	Sensitifrwydd				
Trosolwg	Er bod arwyddion hen ddiwydiannau (diwydiant glofaol ar raddfa fach a chwarelu calchfaen), mae cymeriad gwledig clos a chysgodol y dirwedd hon, y nenlinellau heb eu datblygu, yr ymdeimlad cryf o lonyddwch, golygfeydd yn llawn cymeriad ar draws yr afon, a chynefinoedd rhannol naturiol, yn cyflwyno sensitifrwydd i'r math hwn o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.				
	Ise	Cymedrol-Ise	Cymedrol	Cymedrol-uchel	Uchel
Tyrbinau mawr					
Tyrbinau canolig					
Tyrbinau bach					
Prif sensitifeddu	<p>Dyma briodoleddau'r dirwedd a fyddai'n arbennig o sensitif i ddatblygiad tyrbinau gwynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeriad y dirwedd sydd ag ychydig bach o anheddiad a lefelau uchel o lonyddwch. • Cymeriad clos a chaeedig y dirwedd gyda naws hanesyddol cryf am le. • Y gorwelion coediog, heb eu datblygu. • Presenoldeb nodweddion hanesyddol, gan gynnwys crugiau o'r Oes Efydd, bryngaerau o'r Oes Haearn a pharcdir. • Presenoldeb cynefinoedd rhannol naturiol gwerthfawr. 				
Canllawiau	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai tyrbinau ar raddfa fawr a chanolig yn addas yn y dirwedd hon. • Efallai y bydd cyfle cyfyngedig ar gyfer tyrbinau sengl neu glystyrau bach o dyrbinau ar raddfa fach cyn belled â'u bod yn cael eu lleoli mewn ffordd sensitif ac yn ystyried y canllawiau isod. • Lleoli tyrbinau ar raddfa fach mewn ardaloedd lle gallant ymberthyn yn weledol i adeiladau neu strwythurau adeiledig sydd eisoes yn bodoli yn y dirwedd yn unig, yn ddelfrydol ger adeiladau fferm sydd eisoes yn bodoli, ac oddi wrth ymyl yr aber. • Osgoi gosod gormod o gynlluniau tyrbinau bach ar wahân ar hyd yr un crib. • Osgoi cyfod gwahanol ddyluniadau ac uchderau tyrbinau, gan anelu yn hytrach am uchder a dyluniad cyson mewn unrhyw ardal. 				

	<ul style="list-style-type: none">• Manteisio ar effaith sgrinio coetiroedd yr ardal wrth leoli unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt.• Sicrhau na fydd tyrbinau yn cael effaith niweidiol ar y golygfeydd sy'n llawn cymeriad o aneddiadau'r draethlin ar draws yr afon ac ar hyd yr afon.• Sicrhau na fydd tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar olion o gynhanes yr ardal – gan gynnwys y crugiau o'r Oes Efydd a'r bryngaerau o'r Oes Haearn.• Sicrhau na fydd tyrbinau a seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar gynefinoedd rhannol naturiol gwerthfawr yr ardal.• Dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad tyrbinau gwynt sydd wedi'i leoli o fewn yr ACT hon yn aberthu cyfanrwydd, cydlyniad a chymeriad hanfodol y dirwedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol²⁷.
--	--

²⁷ Mae 'cyfanrwydd' yn cyfeirio at sut mae'r dirwedd yn edrych ar y cyfan, tra bod 'cydlyniant' yn cyfeirio at sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn cysylltu â'i gilydd. Mae 'cymeriad' yn cyfeirio at y cyfuniad o elfennau hanfodol y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn unigryw i'r llall.